GIG Cymru
Adroddiad Astudiaeth Arloesi a Thrawsnewid COVID-19



Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad gan dîm comisiynu'r prosiect	4
Crynodeb gweithredol	7
Themâu allweddol	11
Dadansoddiadau a chanfyddiadau o'r astudiaethau ansoddol	21
Ein tîm	50
ATODIAD: Setiau data, methodoleg a dull gweithredu	51

Rhagair

Diolch yn fawr i chi am eich diddordeb yn yr adroddiad pwysig hwn.

Trwy gydol pandemig COVID-19, mae ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol wedi wynebu her fwyaf ein hoes. Mae cydweithwyr ar draws GIG Cymru wedi addasu i ffyrdd newydd o weithio er mwyn ymateb yn gyflym i'r angen i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol mewn amgylchedd diogel.

Yn ystod argyfwng, bydd pobl yn aml yn gwneud pethau newydd ac arloesol nad ydynt wedi eu gwneud erioed o'r blaen. Byddwn yn bwrw golwg wahanol ar faterion ac yn gweithredu mewn ffyrdd greddfol sy'n herio'r status quo. O wneud hynny, gallwn chwalu rhwystrau a chyflymu newid yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Rwyf wedi gweld llawer o enghreifftiau o'r fath o ymarfer arloesol yn ystod yr ymateb i bandemig COVID-19, ac mae'n hanfodol ein bod yn cofnodi hynny ac yn sicrhau ein bod yn manteisio ar y cyfle i ddysgu'r gwersi gwerthfawr sy'n deillio.

Rydym wedi gallu adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn Cymru Iachach ac mae ein hymateb i COVID-19 wedi cyflymu camau i weithredu ein cynllun tymor hir mewn rhai meysydd. Mae'r weledigaeth wreiddiol ar gyfer Cymru Iachach wedi cael ei dilysu ac mae'n parhau'n berthnasol i Gymru heddiw. Wrth i ni symud ymlaen i'r amserau heriol sydd o'n blaenau a sefydlogi ac ailadeiladu ein gwasanaethau, mae gennym gyfle i adeiladu ar yr enghreifftiau arloesol yn yr adroddiad hwn a sicrhau y caiff ein ffyrdd newydd o weithio eu gwreiddio'n gadarn yn ein system gofal iechyd.

Rwyf wedi gweld bod pobl eisiau cynnal y cynnydd rydym wedi'i weld yn y system ac rwy'n arbennig o falch o weld enghreifftiau o ffyrdd y mae cydweithwyr wedi addasu gwasanaethau presennol er mwyn diogelu cleifion sy'n agored i niwed tra'n sicrhau y gallai triniaethau ar gyfer cyflyrau sydd angen sylw brys barhau.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl weithwyr gofal iechyd proffesiynol am eu hymrwymiad parhaus i'r ymateb i COVID-19 ac am roi'r amser i gyfrannu at yr adroddiad hwn y dylai ymarferwyr ac arweinwyr yn y system ei ddefnyddio i roi newid ar waith.

Dr Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gofal Cymdeithasol,
Prif Weithredwr GIG Cymru

EIN PARTNERIAID

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Llywodraeth Cymru Welsh Government

THE WELSH NHS CONFEDERATION CONFFEDERASIWN GIG CYMRU

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Comisiwn Bevan Commission

Healthcare Science Cymru

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Arloesi Innovation

ARCH
A Regional Collaboration for Health
Cydweithrediad Rhanbarthol dros Iechyd

PARATOWYD GAN:

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Cyflwyniad
gan dîm comisiynu'r prosiect

Mae Astudiaeth Arloesi a Thrawsnewid COVID-19 GIG Cymru wedi cael ei gynhyrchu trwy ymdrechion llu o bartneriaid. Rydym wedi cydweithio i ddarparu adroddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol eang a gasglwyd o bob rhan o'r system iechyd a gofal yng Nghymru.

Bwriedir i'r adroddiad astudiaeth annibynnol hwn fod yn un hygyrch sy'n rhoi gwybodaeth ac yn erfyn sy'n ysgogi dysgu a newid. Wrth ei baratoi, mae tîm y prosiect wedi anelu at:

- ddatblygu gwell dealltwriaeth ynglŷn â pham y gweithredodd y system arferion newydd ac arloesol yn ystod pandemig COVID-19;
- dangos y ceir 'caniatâd' cynhenid i gyflwyno arferion arloesol a newid trawsnewidiol;
- roi tystiolaeth o enghreifftiau ymarferol, o'r byd go iawn o arloesi sy'n cefnogi'r syniad o gymhwyso arferion da i feysydd eraill;
- dangos sut mae GIG Cymru yn arweinydd o safbwynt gweithredu arfer arloesol a ffyrdd newydd o weithio trwy gydol pandemig COVID-19.

Mae rhychwant eang o dystiolaeth ansoddol a meintiol wedi'i gasglu gan ymarferwyr ar bob lefel yn y system gofal iechyd, sydd wedi gweithio'n ddiflino i addasu i gyfres o amgylchiadau digynsail tra'n parhau i ofalu am a diogelu trigolion Cymru.

Gyda hynny mewn golwg, mae'r adroddiad hwn yn rhoi argymhellion ynglŷn â sut y gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac ymarferwyr ar draws GIG Cymru gynnal y ffyrdd arloesol a thrawsnewidiol o weithio sydd wedi datblygu.

Mae'r adroddiad astudiaeth hwn wedi'i ddarparu trwy ddull gweithio Tîm Cymru, gan grŷp comisiynu prosiect penodedig. Darparwyd arweinyddiaeth ac adnoddau gan aelodau'r grŷp – pob un ohonynt wedi dod ag arbenigedd penodol a chynnig unigryw o ran trefniadaeth. Mae'r cydweithio hwn yn dangos beth ellir ei gyflawni yng Nghymru fel cenedl fechan ond un sydd â rhwydweithiau helaeth ac amgylchedd polisi integredig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Paratowyd yr adroddiad hwn a'r ymchwil sy'n sail iddo yn annibynnol i grŷp comisiynu'r prosiect gan dîm dan arweiniad Ysgol Reolaeth Prifysgol Abertawe (rhoddir manylion yr aelodaeth ar dudalen 50).

Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad astudiaeth hwn yn ddefnyddiol ar bob lefel yn ysgogi newid cadarnhaol ac ystyrlon mewn arferion.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Tom James, Cyfarwyddwr cynorthwyol – Arloesi, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (Cadeirydd)

Llywodraeth Cymru

Emma Spear, Dirprwy Gyfarwyddwr:, Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol
Ruth Crowder, Prif Gynghorydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deborah Paramore, Pennaeth Strategaeth, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Maria Edwards
Rheolwr Rhaglen Gwyddor Gofal Iechyd Cymru

Conffederasiwn GIG Cymru

Nesta Lloyd-Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Olivia Baker, Swyddog y Cyfryngau a Chyfathrebu

GIG Cymru

Mae GIG Cymru yn darparu gwasanaethau trwy saith Bwrdd Iechyd Lleol, tair Ymddiriedolaeth GIG a dau Awdurdod Iechyd Arbennig.



Byrddau Iechyd Lleol

Y saith Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am gynllunio a sicrhau darpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd ynghyd â gwasanaethau arbenigol ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau deintyddol, optegol, fferyllol ac iechyd meddwl. Maent yn gyfrifol hefyd am ddarparu gwasanaethau mewn partneriaeth, gwella deilliannau iechyd corfforol ac iechyd meddwl, hyrwyddo llesiant a lleihau anghyfartaleddau iechyd ar draws eu poblogaeth.

Y saith Bwrdd Iechyd Lleol ydy:

1. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
2. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
3. Gwefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
4. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
5. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
6. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
7. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ymddiriedolaeth GIG

Mae tair Ymddiriedolaeth GIG sy'n gweithredu ar lefel Cymru gyfan.

- **Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru** ydy'r asiantaeth genedlaethol ar gyfer iechyd y cyhoedd sy'n gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghyfartaleddau iechyd ar ran pobl Cymru.
- **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre** sy'n darparu gwasanaethau canser arbenigol ar draws De a Chanolbarth Cymru a gwasanaeth cenedlaethol trwy Wasanaeth Gwaed Cymru.
- **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** sy'n darparu rhychwant o wasanaethau argyfwng a rhai nad ydynt ar gyfer argyfwng oddi allan i ysbytai.

Awdurdodau Iechyd Arbennig

- **Addysg a Gwella Iechyd Cymru sydd â rôl arweiniol yn addysgu, hyfforddi, datblygu[2]a llywio ffurf y gweithlu gofal iechyd ledled Cymru.**
- **Iechyd a Gofal Digidol Cymru** sy'n awdurdod iechyd arbennig newydd, a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau digidol, data a thechnoleg ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru.

Mae adroddiad yr Astudiaeth yn rhoi argymhellion yngl n â sut y gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac ymarferwyr o bob rhan o GIG Cymru gynnal y ffyrdd arloesol a thrawsnewidiol o weithio sydd wedi datblygu.

Crynodeb Gweithredol

Amcanion Allweddol

Nod yr astudiaeth ydy cofnodi dysgu allweddol a rhannu'r ymarfer newydd ac arloesol sydd wedi datblygu o ganlyniad i COVID-19 yn GIG Cymru.

Amcanion allweddol yr astudiaeth ymchwil yw:

- cofnodi'r dysgu allweddol er mwyn deall y rhesymau pam y gallai sefydliadau a staff GIG Cymru arloesi neu pam y gwnaethant arloesi;
- rhannu casgliad o astudiaethau achos sy'n rhoi manylion enghreifftiau o arloesi;
- cynhyrchu set o themâu sy'n dod i'r amlwg - yn deillio o ganfyddiadau allweddol;
- darparu sylfaen dystiolaeth sy'n gallu cynnal proses o fabwysiadu ymarfer arloesol a ffyrdd trawsnewidiol o weithio;
- llywio gwaith creu polisïau yn y dyfodol ar sail y dystiolaeth.

Y sylfaen dystiolaeth

Crëwyd yr adroddiad hwn gan ddefnyddio rhychwant eang o dystiolaeth ansoddol a gynhyrchwyd yn ystod y deuddeg mis diwethaf, fel y gwelir yn y tabl isod:

		YMATEBWYR
CENEDLAETHOL	Astudiaeth Arloesedd Covid-19 GIG Cymru	273
	Data astudiaeth profiad Comisiwn Bevan – 2 Gam	454
	Astudiaeth Newid Gwasanaeth Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Ofal Iechyd	180
	Arolwg Arloesedd Covid-19 y Rhaglen Gwyddor Gofal Iechyd	129
	Astudiaethau achos a ddewiswyd yn seiliedig ar ddadansoddi data arolygu gyda dilysiad grwpiau ffocws	37 achos +15 (panel arbenigol)
RHANBARTHOL	Adroddiad Darganfod Strategol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	
	Adroddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	
	Adroddiad Adolygu Covid-19 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
	MEWNWELEDIADAU Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	
	Adroddiad Arloesi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	

Themâu allweddol

Dangosodd ein dadansoddiad o'r rhychwant eang o ddata ansoddol **saith thema allweddol**, ac rydym wedi ymchwilio ymhellach iddynt gydag astudiaethau achos:

Defnydd mwy ystwyth o adnoddau

- Ailddyranwyd adnoddau ar raddfa sylweddol, adroddodd rhai y bu hyn yn hawdd iawn, tra bod eraill yn dweud y bu'n drwm o ran proses (trefniadau anffurfiol o gymharu â threfniadau ffurfiol)
- Gwelwyd rhwystrau rhag adleoli staff i feysydd blaenoriaeth yn gyflym
- Roedd mynediad parod at gyllid ar gyfer syniadau arloesol a thrawsnewidiol ar gael i rai cydweithwyr, ond ddim i eraill

Llesiant staff

- Adroddwyd am ymyriadau a gyflwynwyd i gefnogi iechyd emosiynol a meddyliol cydweithwyr, a bu croeso i'r rhain
- Mae effeithiau'r ymyriadau hyn wedi amrywio ar draws gweithlu eang ac amrywiol, gan amlygu'r angen am rychwant ehangach o ymyriadau (mewn partneriaeth â sefydliadau eraill)
- Mae cydweithwyr ar y rheng flaen wedi adrodd am yr angen am gefnogaeth wahanol, wedi'i darparu mewn ffyrdd mwy hygyrch.
- Roedd cyfathrebu eglur yn elfen hanfodol o lesiant staff a amlygwyd

Gweithio gyda'n gilydd

- Roedd synnwyr cryf o falchder yn y modd y tynnodd staff at ei gilydd trwy gyfnod anodd o fod o dan gryn bwysau yn amlwg iawn yn yr ymatebion
- Adroddodd aelodau staff eu bod yn teimlo eu bod wedi'u grymuso ac yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd eu bod yn gallu cynllunio a gweithredu prosiectau arloesi a thrawsnewid newydd
- Roedd Timau Amlddisgyblaethol a dulliau wedi'u rhwydweithio yn cael eu defnyddio'n helaethach er mwyd gwneud y gorau o sgiliau amrywiol i fynd i'r afael â heriau newydd
- Adroddwyd am ysbryd cymunedol cadarnhaol, cydlyniad a gwytnwch, gyda chydweithwyr mewn sefydliadau trydydd sector yn gysylltiedig

Cyflymu gwneud penderfyniadau

- Yn sgil trefniadau llywodraethu diwygiedig, adroddodd llawer o aelodau staff bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyflymach (disgrifiwyd hyn fel "llai o fiwrocratiaeth"). Cafodd hynny effaith fawr ac fe'i croesawyd
- Roedd aelodau staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u profiad
- Roedd hyn wedi galluogi aelodau staff mewn rhai mannau i roi cynnig ar bethau newydd a gwahanol, gan arwain at symudiadau a newidiadau o ran darpariaeth gwasanaethau
- Roedd safbwyntiau aelodau staff yn amlygu gwir angen i fanteisio ar y momentwm hwn er mwyn newid a thrawsnewid 'y ffordd rydyn ni'n cynnal busnes wrth symud ymlaen'
- Mae llawer o aelodau staff yn ofni y bydd yr hen ffyrdd o weithio yn dychwelyd, ble nad ydynt yn gallu gwneud y newidiadau i wasanaethau y maent yn teimlo bod eu hangen

Cynnal cyflymder arloesi a newid

- Roedd teimlad o hyder a gallu i roi cynnig ar bethau newydd ac i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd yn thema amlwg
- Yn ogystal â gwella'r gwasanaeth, roedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar forâl staff a deilliannau i gleifion
- Safbwyntiau cryf bod angen i GIG Cymru fanteisio ar 'lwyfan COVID-19' a'r cyflwr presennol o fod yn agored i newid er mwyn gwneud newidiadau i wasanaethau, ar sail yr hyn sydd wedi gweithio hyd yn hyn ac wedi dod i'r amlwg

Mynediad at a hyder mewn technoleg ddigidol

- Mabwysiadu a defnyddio technolegau digidol gan staff, ar gyfer darparu gwasanaethau i gleifion yn ogystal â gwaith a chyfathrebu mewnol
- Darparodd technoleg ddigidol fwy o ddewis a rheolaeth i gleifion dros ddefnydd o'r gwasanaeth a hunan driniaeth
- Mae angen mynd i'r afael â chwestiwn 'digidol yn ddiofyn' neu 'ddigidol trwy ddewis' er mwyn sicrhau cynhwysiant digidol

Cofleidio technoleg newydd

- Mae derbyn a mabwysiadu technolegau (yn gyflym) wedi bod yn allweddol wrth ymateb i'r pandemig
- Mae'n amlwg bod y defnydd o dechnoleg yn cael ei ystyried yn hanfodol wrth ymateb i sefydlogi ac ailadeiladu gwasanaethau

Yn ogystal, **daeth y themâu ehangach canlynol** i'r amlwg:

- Mae COVID-19 yn darparu llwyfan eang ar gyfer arloesi a thrawsnewid
- Mae gan GIG Cymru rôl sylweddol i'w chwarae yn lleihau'r defnydd o garbon, yn arbennig trwy ddefnydd o dechnoleg. Dylid mesur effaith amgylcheddol newid gwasanaethau

Rhoddir manylion y saith thema allweddol ar dudalennau 11-19.

Canfyddiadau Allweddol ac Argymhellion

Mae'r data toreithiog ac amrywiol wedi rhoi cyfle i'n gwaith gael golwg dda ar GIG Cymru a'i staff yn yr amseroedd argyfyngus hyn. Roedd pandemig COVID-19 yn dal i fynd rhagddo adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Trwy ddadansoddi'r arolygon a'r astudiaethau achos, rydym wedi nodi nifer o enghreifftiau o ymarfer newydd ac arloesi sy'n dangos angerdd ac amgylchedd bywiog o fewn GIG Cymru, yng nghanol yr heriau.

Mae'n ymddangos fel petai GIG Cymru mewn cyflwr newidiol a allai gynnig cyfle i esblygu, neu hyd yn oed i drawsnewid, ei ddiwylliant. Y cwestiwn allweddol ydy:

"Sut gall GIG Cymru sicrhau ei fod yn ymgorffori'r dysgu a'r ymarfer arloesol sydd wedi datblygu yn ystod y pandemig yn hytrach na dychwelyd at yr hen ffyrdd o weithio?"

Mae'r **argymhellion** canlynol wedi'u crynhoi o gyfres gychwynnol o "feysydd i'w hystyried" ar gyfer pob un o'r saith thema sy'n dod i'r amlwg y mae ein tîm ymchwil wedi'u nodi. Gall y rhain fod yn sylfaen ar gyfer gwerthuso pellach, myfyrio a gweithredu gan yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â GIG Cymru (fel y'u nodir yn yr adroddiad hwn). I gael rhagor o wybodaeth am y fethodoleg ymchwil a fabwysiadwyd, gweler yr ATODIAD ar dudalen 51.

1 Dylai sefydliadau GIG Cymru gyd-gynhyrchu Strategaeth Arloesi gyda Llywodraeth Cymru.

Dylai fod gan bob sefydliad GIG Strategaeth Arloesi sydd wedi'i hymgorffori'n llwyr yn ei lywodraethiant ac wedi'i alinio â 'Cymru Iachach'. Bydd angen i'r Strategaeth Arloesi hon ystyried y gwahaniaethau rheoli risg rhwng sefyllfaoedd clinigol ac anghlinigol, galluogi creu diwylliant ystwyth sy'n rhoi arloesi ar waith a chynhyrchu cysyniadau i ddigwydd yn gyflym o fewn amgylchedd diogel.

2 Dylai sefydliadau GIG Cymru ddatblygu a gweithredu Fframwaith Arloesi a phrosesau i alluogi arloesi.

Er mwyn helpu i yrru gweithgaredd arloesi sydd wedi'i flaenoriaethu yn ei flaen, argymhellir y dylai pob sefydliad ddatblygu Fframwaith Arloesi o dan y strategaeth a nodir yn Argymhelliad 1, gan ei alinio'n agos at yr amcanion ymchwil ac arloesi strategol sydd wedi'u nodi, er mwyn symud arferion arloesol yn eu blaen a'u cymeradwyo mewn modd amserol.

3 Adolygu dulliau o ddatblygu'r gweithlu er mwyn cynyddu capasiti arloesi ar draws GIG Cymru.

Cynyddu cyfleoedd i ymwneud â gweithgareddau arloesi, hyfforddiant a recriwtio ym mhob maes iechyd, trwy ddull strategol o weithio ym maes datblygu'r gweithlu. Y bwriad yma ydy cynyddu capasiti net tymor hir y gweithlu ar gyfer arloesi, cynnal y momentwm a hyrwyddo newid diwylliant.

4 Gwneud pwyntiau cyswllt arloesi yn fwy amlwg ar draws sefydliadau GIG Cymru.

Dylai holl aelodau staff GIG Cymru wybod â phwy y dylent gysylltu ynglŷn ag arloesi a thrawsnewid y gwasanaeth.

5 Hyrwyddo, dathlu ac ysgogi syniad o gydamcanu tuag at wella'n barhaus.

Hyrwyddo, dathlu ac ysgogi syniad o gydamcanu tuag at wella'n barhaus, bod yn barod i newid, galluogedd a diwylliant o fod yn barod i addasu, yn ogystal â diwylliant o chwilfrydedd mewn perthynas ag ymchwil, arloesi a gwella o GIG Cymru ("newid o feddwl bod arloesi yn risg" i ofyn "beth ydy'r risg o beidio ag arloesi neu beidio â thrawsnewid?"). Dylai hyn fod yn berthnasol i staff ar bob lefel, gyda chefnogaeth a nawdd gan uwch arweinwyr.

6 Adolygu arferion adleoli staff.

Adolygu'r gallu i adleoli staff ac adnoddau eraill yn gyflym, trwy adnabod blaenoriaethu deinamig, galluogwyr ac atalwyr.

7 Deall a gweithredu mewn perthynas ag effeithiau ar lesiant staff o ganlyniad i gynnydd yn y pwysau a roddir arnynt.

Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hirdymor gorau, dylai pawb – ar lefel unigolion yn ogystal â sefydliadol –werthfawrogi eu llesiant eu hunain a deall a hyrwyddo arferion llesiant, a hunanystyried. Dylid defnyddio arolygon llesiant i ddeall effeithiau'r pandemig ar iechyd meddwl a hapusrwydd aelodau staff ac effaith y mesurau a'r protocolau llesiant a roir ar waith, ac i ddatblygu rhychwant o ymyriadau, gan gydnabod anghenion gwahanol staff rheng flaen a staff nad ydynt ar y rheng flaen, er mwyn gwella gwytnwch.

8 Parhau i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn rhagweithiol ac yn bwrpasol.

Gwerthuso'r integreiddio sydd wedi digwydd yn ystod pandemig COVID-19 rhwng iechyd/gofal cymdeithasol a darparwyr trydydd sector i wella gwerth cyd-greu ac i alluogi dull integredig o weithio ym maes iechyd a gofal.

9 Adolygu llywodraethiant mewn perthynas â gwneud penderfyniadau

Adolygu'r lefelau llywodraethiant a'r prosesau uwchgyfeirio a gwneud penderfyniadau cysylltiedig er mwyn lleihau rhwystrau rhag cyrraedd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a galluogi'r bobl iawn i wneud y penderfyniadau iawn.

10 Meithrin ac annog rhwydweithiau aml- a rhyng-ddisgyblaethol, er mwyn gwella ystwythder hir-dymor.

Gwerthuso a hyrwyddo cydweithio ffurfiol ac anffurfiol a strwythurau rhwydweithio amlddisgyblaethol sydd wedi ffurfio'n ddigymell yn ystod pandemig COVID-19, er mwyn galluogi penderfyniadau cyflymach yn y maes. Dylai uwch arweinwyr ystyried methodolegau ystwyth a darbodus, a pheilota mentrau i werthuso'r effeithiau posib ar raddfa lai (e.e. Sbrintiau tebyg i'r rhai ym maes datblygu meddalwedd, dulliau o ddatrys problemau trwy heidio, ac ati). Gwerthuso effaith dirprwyo awdurdod a chyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ar ansawdd cyffredinol prosesau gwneud penderfyniadau dros y 15 mis diwethaf, er mwyn dod i ddeall sut i fireinio neu wella dulliau o weithredu.

11 Sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl o fewn yr agenda ddigidol.

Cynnal asesiadau sgiliau digidol a chynhwysiant digidol, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, er mwyn dod i ddeall lefelau cynhwysiant digidol mewn gwahanol rannau o Gymru a grwpiau oedran/demograffeg.

12 Datblygu gweledigaeth sy'n edrych ymlaen a strategaeth ar gyfer integreiddio technolegau tarfol mewn modd diogel, gan ystyried anghenion ein poblogaeth yn y dyfodol.

Dyfeisio strategaeth hir-dymor, yn seiliedig ar ymchwil, i harneisio technolegau digidol a chydgyfeiriol yn ddiogel er mwyn: darparu cyfeiriad clir ar gyfer yr agenda iechyd digidol i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, gan ystyried effaith ymgorffori technolegau digidol ar anghenion pobl, cleifion a staff yn y dyfodol ac o safbwynt eu hapusrwydd; galluogi uwchsgilio'r gweithlu yn y tymor hirach, harneisio data mawr, deallusrwydd artiffisial, dysgu peirianyddol ac offer a thechnolegau digidol er mwyn caniatáu i ymdrechion dynol gael eu canolbwyntio ar weithgareddau sy'n ychwanegu gwerth mawr.

Mae COVID-19 yn rhoi'r cyfle gorau mewn cenhedlaeth i ni newid a thrawsnewid ein gwasanaethau iechyd a gofal, gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth a ddarperir gan yr adroddiad hwn.

Hoffem ddiolch i chi am ddarllen trwy'r adroddiad; gobeithiwn y bydd yn ysgogiad ac yn ddefnyddiol i chi. Hoffem ni:

- annog y sector i ddefnyddio'r adroddiad hwn fel canllaw ymarferol i symud yr argymhellion yn eu blaenau yn eu hamgylchedd eu hunain;
- parhau â'r momentwm sydd wedi'i ysgogi gan bandemig COVID-19;
- cynnal gwaith sy'n arloesi a thrawsnewid gwasanaethau;
- ystyried yr wybodaeth am "sut i" a ddarperir trwy'r astudiaethau achos a'r dadansoddiad yn ganllaw sy'n ysbrydoli.



Themâu Allweddol

Cyflwyniad

Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno canfyddiadau allweddol o'r cyfweliadau a'r ymchwil astudiaethau achos a gynhaliwyd i ddilyn yr arolygon.

Rydym wedi datblygu 37 o astudiaethau achos yn seiliedig ar gyfweliadau manwl lled-strwythuredig (h.y. defnyddio fframwaith gyfweld hyblyg yn seiliedig ar themâu a chwestiynau eang er mwyn ein galluogi i dreiddio ymhellach gan ddibynnu ar yr hyn y bydd yr ymatebydd yn ei drafod). I gael gweld yr astudiaethau achos, gweler y ddogfen sy'n Atodiad i'r adroddiad hwn.

Yn y cyfweliadau, buom yn ymchwilio'r themâu, profiadau'r ymatebwyr o gyflawni ymarfer arloesol, gan gynnwys heriau, arferion cadarnhaol a negyddol a ystyriwyd wrth ddatblygu neu gyflwyno'r ymyriadau; a'r saith thema sy'n dod i'r amlwg a nodwyd o'r dadansoddiad thematig:

- **Defnydd mwy ystwyth o adnoddau**
- **Llesiant staff**
- **Gweithio gyda'n gilydd**
- **Cyflymu gwneud penderfyniadau**
- **Cynnal cyflymder arloesi a newid**
- **Mynediad at a hyder mewn technoleg ddigidol**
- **Cofleidio technoleg newydd**

Buom yn ymchwilio hefyd i bwysigrwydd canfyddedig y gwaith a gyflawnwyd, ac unrhyw gamau pellach y gallai'r ymatebwyr fod wedi'u nodi ar gyfer mynd â'r gwaith yn ei flaen.

Aethom ati i ddadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd a chymhwyso tri cham gweithredol:

- defnyddiom ni'r canfyddiadau o'r dadansoddiad o'r cyfweliadau hyn i greu set o **"feysydd i'w hystyried"** (rhoddir amlinelliad o'r rhain ar y tudalennau nesaf yn yr adran hon);
- yn seiliedig ar y meysydd i'w hystyried hyn a'r dystiolaeth a oedd y dod i'r amlwg, detholwyd astudiaethau achos yn seiliedig ar yr ymatebwyr i'r arolwg, a chrëwyd astudiaethau achos byr yn seiliedig ar y cyfweliadau a gynhaliwyd;
- rhannwyd y canfyddiadau allweddol o'r ymchwil astudiaethau achos gyda phedwar grŷp ffocws, er mwyn helpu i'w dilysu ac i greu argymhellion ychwanegol.

Yn olaf, gwerthuswyd yr argymhellion a ddeilliodd o waith y grwpiau ffocws yng ngoleuni'r setiau o argymhellion a ddatblygwyd gan ein hymchwilwyr, ac fe'u hintegreiddwyd.

Cynhaliwyd y dilysu trwy grwpiau ffocws gan ddefnyddio ymarferwyr arbenigol, academyddion, clinigwyr a gwyddonwyr gofal iechyd. Llywiodd y canfyddiadau o'r grwpiau ffocws hyn y dadansoddiad terfynol a datblygiad yr argymhellion lefel uchel a welir ar dudalennau 9-10.

I gael rhagor o wybodaeth am y fethodoleg, gweler yr ATODIAD ar dudalen 51.



Defnydd mwy ystwyth o adnoddau

Mae'r thema hon yn cofnodi'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion cychwynnol ynglŷn ag argaeledd a dyrannu adnoddau a gallu staff i gael gafael arnynt.

Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg

- Ymatebodd rheolwyr yn y GIG yn gyflym i'r sefyllfa, ac roedd modd iddynt symleiddio prosesau dyrannu adnoddau er mwyn manteisio ar syniadau ac arloesedd i helpu gyda'r galw eithafol a osodwyd ar y sector gan y pandemig.
- Argaeledd: adnoddau a chyllid i gefnogi arloesedd ar gael i rai, ond nid i eraill.
- Galluogedd:
  - adroddodd rhai aelodau staff eu bod yn teimlo nad oeddent yn gallu (tu hwnt i'w gafael) gofyn am gyllid,
  - adroddodd eraill eu bod o'r farn bod cyllid bob amser ar gael iddyn nhw ar gyfer arloesi/newid.

Meysydd i'w hystyried

- Dylai'r system gofal iechyd gwestiynu a yw'r amgylchedd iawn yn bodoli i alluogi arloesi i ddigwydd o fewn amserlenni realistig.
- Galluogi cyfleoedd ar gyfer arloesi trwy greu diwylliant cadarnhaol, cefnogol ac amgylchedd sy'n annog ym mhob rhan o GIG Cymru.
- Cyfathrebu sut y gellir cefnogi cynorthwyo cydweithwyr i arloesi trwy ganiatáu amser a rhoi gwybod am gyllid mewnol/allanol sydd ar gael.
- Symleiddio prosesau (gweler hefyd themâu Cyflymu gwneud penderfyniadau a Chynnal cyflymder arloesi a newid) er mwyn galluogi prosesau gwneud penderfyniadau effeithlon a lleihau haenau gwneud penderfyniadau a biwrocratiaeth lle bo modd. Mae hyn yn allweddol ar gyfer llwyddiant arloeseddau sy'n ymwneud â phrosesau lle mae amser yn ffactor pwysig.
- Adolygu trefniadau llywodraethu, prosesau adrodd, gwneud penderfyniadau a chyfathrebu fel eu bod yn cyfyngu a rhwystro llai.
- Galluogi hyblygrwydd ar gyfer, ac ymwybyddiaeth o geisiadau am ddyrannu/adleoli adnoddau, a gwella'r fframweithiau hyn er mwyn gwella effeithlonrwydd.



- Gwersi a ddysgwyd: adolygu prosesau dyrannu ac adleoli a'r defnydd o adnoddau yn ystod y pandemig er mwyn llywio gwella parhaus a dyrchafu parhad busnes.

Llesiant staff

Mae'r thema hon yn cofnodi'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion cychwynnol ynglŷn ag iechyd a lles meddyliol ac emosiynol cleifion ac aelodau staff, mecanweithiau cefnogi, ymateb aelodau staff i'r cynnydd yn y galwadau ar eu hamser, eu hymdrech a'u cyfrifoldebau a'r effaith y cafodd y rhain ar eu hiechyd a'u lles.

Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg

- Adroddwyd yn fynych am iechyd a lles meddyliol ac emosiynol aelodau staff a chleifion gyda phobl yn ymwybodol o'u hiechyd a'u lles eu hunain.
- Roedd ymyriadau a gyflwynwyd i leihau problemau fel straen, iselder a gorbryder yn cael eu croesawu.
- Roedd aelodau staff yn profi straen o ganlyniad i weithio mewn amgylcheddau pwysedd-uchel yn barhaus a/neu straen yn deillio o weithio o gartref a pheidio â chael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- Roedd heriau yn deillio o cyfrifoldebau cynyddol a dyletswyddau ychwanegol a roddwyd i nyrsys ac aelodau eraill o staff gofal iechyd (e.e. Gofal dan arweiniad nyrsys yn mynd yn llethol ac yn peri straen wrth iddynt brofi teimladau o unigedd).
- Mae cyfathrebu rhwng staff yn hanfodol wrth gefnogi ymarfer clinigol a lles staff wrth iddyn nhw ymgymryd â rhagor o gyfrifoldeb.

Meysydd i'w hystyried

- Cyfathrebu pwysigrwydd a gwerth lles staff yn gyson a gwir effeithiau cynnal/peidio â chynnal lles.
- Darparu ymyriadau llesiant (meddyliol, emosiynol) hygyrch ac amserol i staff; codi ymwybyddiaeth yn gynhwysol a darparu cyfleoedd ar draws pob maes iechyd, gan ddefnyddio sawl sianel gyflenwi.
- Mabwysiadu agwedd fwy ymwybodol tuag at gefnogi llesiant ymhlith gweithlu amrywiol GIG Cymru, gan ystyried patrymau gweithio gwahanol, diwylliannau a ffordd o fyw aelodau unigol o staff.
- Mgynghori â staff (arolwg ymchwil) ar effaith COVID-19 ar lesiant, gan gynnwys timladau cynyddol yn ogystal â'r pwysau ychwanegol gan COVID-19. Dylid defnyddio'r rhain i ddatblygu ystod o ymyriadau, gan gydnabod y gwahanol anghenion rhwng staff rheng flaen a staff nad ydynt yn rheng flaen, i wella gwytnwch.
- Cydnabod bod llesiant yn bersonol i bob unigolyn.
- Annog rheolwyr a chydweithwyr i fabwysiadu diwylliant llesiant cadarnhaol a dod o hyd i amser i siarad am lesiant trwy rannu profiadau.
- Datblygu mecanweithiau i leihau teimladau o unigedd ac unigrwydd i staff sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain neu o gartref.

"Beth sy'n wych ydy ein bod wedi bod yn cael seicoleg, llesiant staff, ac maen nhw'n cynnal llawer o weminarau a sesiynau ar . . . [B]le roedden ni'n cael gweld arfer da nawr ynglŷn â sut y gallwn ni ymgysylltu â phobl sy'n newydd i'r sefydliad, hyd yn oed os nad ydyn nhw yn eich tîm chi.
" . . . [M]ae'n fater o edrych ar sut rydyn ni'n gwneud y gorau o dechnoleg er mwyn sicrhau bod llesiant aelodau staff yn dda a bod ganddynt gydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith"

"Rydych chi'n cael cyfleoedd i gael sgyrsiau am iechyd meddwl, ond dydyn nhw [aelodau staff a gwirfoddolwyr yng Ngwent] ddim yn teimlo'n hyderus i siarad am iechyd meddwl a lles meddyliol. Maen nhw'n teimlo mai rhywbeth i'r bobl broffesiynol ydy hynny. Felly roedden ni eisiau chwalu'r myth hwnnw."

" . . . [R]ydyn ni wedi comisiynu rhaglen hyfforddi ar les meddyliol y gweithlu. . . . Enw'r rhaglen ydy Connect 5. Mae'n rhaglen hyfforddi i weithluoedd ac mae wedi'i dily-su gan Gymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd."

Gweithio gyda'n gilydd

Mae'r thema hon yn cofnodi'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion cychwynnol ynglŷn â deinameg gwaith cydweithredol, aml-ddisgyblaethol sydd wedi datblygu yn ystod y pandemig, yn ogystal â'r ysbryd cymunedol sydd wedi'i feithrin.

Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg

- Roedd ysbryd cymunedol yn arwyddocaol, gyda'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn teimlo'n "falch" o'r ffordd roedd pawb wedi tynnu ynghyd trwy amser hynod anodd ble roedd pwysau uchel arnynt.
- Roedd aelodau staff yn teimlo'u bod yn cael eu hannog, eu bywiocáu, eu gwerthfawrogi a'u grymuso trwy gymryd rhan mewn prosiectau a gweithgareddau arloesi a thrawsnewid. Mae hynny wedi gwella ymgysylltiad gyda'r gwasanaeth a dod â darpariaeth i safon uwch.
- Gwelwyd mai dull tîm amlddisgyblaethol a rhwydweithio trawsffiniol Bwrdd Iechyd fel y ffordd orau i ddefnyddio sgiliau a phriodoleddau amrywiol sydd gan staff GIG Cymru er mwyn afael â phroblemau.
- Roedd enghreifftiau o ysbryd cymunedol, cydlyniad a gwytnwch yn ymestyn i mewn i'r trydydd sector.

Meysydd i'w hystyried

- Sicrhau cymaint â phosib o gydweithio rhwng adrannau gwahanol a hybu dulliau amlddisgyblaethol o weithio er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau y tro cyntaf tra'n lleihau pwysau.
- Gwerthuso cydweithio rhwng byrddau iechyd gwahanol (ffurfiol ac anffurfiol), a dyfeisio dulliau i sicrhau y bydd cydweithio'n cael ei gynnal a'i atgynhyrchu wedi Covid.
- Canfod ac asesu lefel y gwytnwch sefydliadol a'r effaith tymor byr, canolig a hir ar y gweithlu yn dilyn pandemig.
- Adolygu fframweithiau cydweithio er mwyn sicrhau y caiff y wybodaeth a geir ei chadw, ei mireinio, a'i hail-ddefnyddio (dysgu trwy gydweithio).
- Gwerthuso'r integreiddio sydd wedi digwydd yn ystod pandemig COVID-19 rhwng iechyd/gofal cymdeithasol a darparwyr trydydd sector.

"Mae gennym wasanaeth lles gweithwyr, felly rwyf wedi cael fy nghysylltu i raddau helaeth â nhw fel bod gan unrhyw aelod o staff sy'n cyrchu cefnogaeth . . . wybodaeth am wefan Melo hefyd fel eu bod yn gwybod bod adnoddau ar gael gallent - os ydynt ar y rhestr aros - fod yn edrych arnynt."

Gwneud penderfyniadau'n gyflymach

Mae'r thema hon yn cofnodi'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion cychwynnol ynglŷn â gwneud penderfyniadau, dirprwyo awdurdod a sicrhau ansawdd.

Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg

- Deilliodd yr arloeseddau mwyaf effeithiol o gael y cysylltiadau iawn ymhlith rheolwyr i allu eu symud yn eu blaen ac roedd ganddynt gefnogaeth uwch reolwyr.
- Gweithredodd pandemig COVID-19 fel catalydd i gyflymu arloeseddau a oedd eisoes wedi'u cynllunio.
- Roedd 'biwrocratiaeth' yn cael ei grybwyll yn fynych gyda rhai ymatebion croes i'w gilydd mewn perthynas â biwrocratiaeth.

  - Soniodd llawer bod biwrocratiaeth wedi'i lacio, gan gyflymu'r amserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau.

  - Soniodd pobl eraill bod y broblem gynhenid gyda biwrocratiaeth yn dal yn bresennol, ac yn arafu cynnydd posib rhai o'r arloeseddau.
- Pryder y bydd rheolwyr yn mynd yn ôl at yr "hen ffyrdd" wedi'r pandemig ac y gallai arloeseddau arafu/dod i stop yn gyfan gwbl.

Meysydd i'w hystyried

- Dylai fod cyfleoedd ar gael i staff ddarparu barn ar wella gwasanaethau. Bydd hyn yn caniatáu mwy o foddhad staff wrth iddynt chwarae mwy o ran ym mhenderfyniadau eu hadran.
- Byrddau Iechyd i adolygu rheolaeth a dirprwyo awdurdod yn ariannol gan edrych ar fodd i sefydlu fframweithiau hyblyg ar gyfer atebolrwydd ar lefelau sefydliadol, tîm ac unigol.
- Adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol i leihau fframweithiau, polisïau a phrosesau adrodd cyfyngol neu waharddol.
- Adolygu llwybrau cleifion o un pen i'r llall er mwyn sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys dileu rhwystrau er mwyn galluogi penderfyniadau i gael eu gwneud gan y bobl iawn ar yr amser iawn.
- Asesu a yw taith y claf yn parhau'n briodol ac yn cynnig llwybr cyfannol tuag at greu gwerth.

"Ar ôl i'r pandemig daro, fe wnaethon ni ail-gyflunio ein gwasanaethau i gyflwyno'r porthiant ymatebol i dimau ym mhob un o'r pum bwrdeistref."

"[Newidiodd y llywodraethu fel y byddai] byddai gan y claf sgan a oedd yn asesu'r beichiogrwydd ac yn gwirio bod y beichiogrwydd yn y lle iawn . . . pe bai popeth yn iawn, yna . . . gallem roi meddyginiaeth i'r claf [wedi'i becynnu ymlaen llaw] i fynd adref felly nad oedd angen i'r claf gael sgan os oedd yn gallu darparu'r diwrnod yr oedd yn beichiogi [sic]."

Cynnal cyflymder arloesi a newid

Mae'r thema hon yn cofnodi'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion cychwynnol ynglŷn ag angen a nodwyd i gadw'r cyflwr deinamig hylifol o fewn GIG Cymru, er mwyn sicrhau newid/trawsnewid hir-dymor.

Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg

- Teimladau'n parhau o hyder ac amgylchedd deinamig ar gyfer arloesi, a grëwyd gan newidiadau/trawsnewidiadau i wasanaethau ac arloesi yn ystod cyfnod cynnar pandemig COVID-19.
- Gwelwyd manteision o gwireddwyd addasiadau o ffyrdd newydd o weithio ar unwaith ac roedd hyn yn dangos gwelliant i'r gwasanaeth, morâl staff, tîm, a chanlyniadau cleifion.
- Pryder ymhlith aelodau staff bod y patrwm eisoes yn symud yn ôl tuag at y status quo cyn Covid, er bod awydd cryf i gynnal momentwm.

Meysydd i'w hystyried

- Gwerthuso newidiadau a thrawsnewidiadau (ble mae'n berthnasol) i wasanaethau er mwyn nodi werth, gan sicrhau bod mecanweithiau i gynnal a meithrin y rhain ar waith yn y tymor hir.
- Cynnal sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu a grëwyd ers dechrau'r pandemig COVID-19.
- Annog a galluogi arloesi trwy ysgogi diwylliant o barodrwydd ar gyfer newid, cynyddu ymwybyddiaeth o enghreifftiau o newid cadarnhaol. Ystyried cyflwyno "hyrwyddwyr newid" i helpu efengylu a bod yn gatalyddion ar gyfer newid mewn ymddygiad ac agweddau ar lefelau unigolion, timau a sefydliadau.
- Darparu mecanweithiau strwythuredig i fanteisio ar fewnbynnau ac adborth cleifion/staff, er mwyn eu hannog i berchnogi a chefnogi.
- Ystyried adolygu fframweithiau rheoli perfformiad i ymgorffori mecanweithiau sy'n rhoi ystyriaeth i arferion i'w hefelychu ac adborth/cydnabyddiaeth.

" . . . [R]ydych chi'n cael y teimlad bod y sefydliad yn fwy agored i arloesi nag y byddwn i'n ei ddweud fwy na rhyw ddwy flynedd yn ôl."



Mynediad at a hyder mewn technoleg ddigidol

Mae'r thema hon yn nodi'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion cychwynnol sy'n ymwneud â chynhwysiant digidol. Mae hyn yn cynnwys mynediad at staff digidol a'u derbyn gan staff a chleifion.

Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg

- Defnyddiwyd defnydd effeithiol o dechnolegau digidol a phecynnau meddalwedd wedi'u rhoi ar waith yn gyflym.
- Digidol yn ddiofyn neu ddigidol trwy ddewis. Roedd angen rhagofalon angenrheidiol i alluogi cynhwysiant digidol i bawb ac i ddelio â phetruster cychwynnol ynglŷn â gallu cleifion i gael mynediad at y technolegau iawn.
- Roedd technolegau digidol yn rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i gleifion dros driniaeth/hunan driniaeth ac yn aml, byddai'n arwain at ganlyniadau cyfartal neu hyd yn oed well canlyniadau iddyn nhw yn y tymor hir (iechyd da arweiniad y claf).

Meysydd i'w hystyried

- Mae angen asesiadau sgiliau digidol (defnyddio meddalwedd a chaledwedd): ni ddylid rhagdybio ar lefel y sgil / profiad wrth ddefnyddio datrysiadau digidol cyn eu gweithredu.
- Peilota caledwedd/meddalwedd newydd a gwerthuso fel bod unrhyw drafferthion yn cael eu canfod ar y dechrau a datrysiadau'n cael eu canfod yn gynnar er mwyn lleihau'r effaith ar staff a chleifion.
- Cynnal asesiadau cynhwysiant digidol, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, i ddeall lefelau cynhwysiant digidol ar draws gwahanol rannau o Gymru, a grwpiau oedran a demograffeg.

"Rydyn ni'n gweld beth mae'r cleifion yn ei feddwl ohono [y rhaglen adsefydlu rithwir]. Rwyf wedi cael adborth gan staff nad ydynt efallai'n frwd ar y rhyngrwyd neu'n frwd ar gyfrifiadur. Ac yna po fwyaf y maent yn ei ddefnyddio, y mwyaf hyderus ydyn nhw; yna gallant yn amlwg berswadio ein cleifion i'w ddefnyddio, sydd wedi bod yn wir, wrth lwc."

Cofleidio technoleg newydd

Mae'r thema hon yn cofnodi'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion cychwynnol ynglŷn â: technoleg; derbyn a mabwysiadu technolegau; cyfleoedd a ddarperir gan dechnolegau newydd a thechnolegau datblygol; a heriau sy'n gysylltiedig â thechnolegau cydgyfeiriol a'u hymgorffori yn yr ymarfer presennol.

Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg

- Technolegau a'u cydgyfeirio, a pharodrwydd/amharodrwydd aelodau staff i ymgorffori'r technolegau hynny.
- Mae arbedion effeithiolrwydd o ddefnyddio technoleg yn lleihau'r rhwystrau rhag ei dderbyn ac yn helpu i hyrwyddo defnydd pellach.
- Cadw yn yr hir-dymor (wedi Covid) yn hytrach na mynd yn ôl i'r 'hen ffordd'. Mae hyn yn dangos cymaint y mae technoleg wedi chwarae rhan yn natblygiad gwasanaethau.
- Symud arloeseddau a ddisgrifiwyd gan aelodau staff yn eu blaen i alluogi datblygu technolegol pellach/newydd er mwyn sicrhau gwelliannau amserol i ddeilliannau cleifion.
- Mae gwerthuso arloeseddau i ddarparu tystiolaeth o lwyddiant yn allweddol ar gyfer mabwysiadu a lledaenu'n llwyddiannus.
- Mae cefnogaeth ddigonol i dechnolegau ac arloeseddau yn allweddol er mwyn cael manteision nawr ac yn y dyfodol.

Meysydd i'w hystyried

- Cynnal gwerthusiad o lwyfannau, pecynnau a mecanweithiau cyfathrebu digidol ac offer technoleg (e.e., Open Eyes) er mwyn sicrhau dull cyffredin o weithio a chysondeb ar draws datrysiadau digidol (trosglwyddo gwybodaeth).
- Dylid ystyried rôl arweiniol fwy amlwg yn ganolog ar gyfer asesu (ac awdurdodi) technoleg seilwaith newydd ar sail un tro ar gyfer Cymru.
- Dyfeisio gweithdrefnau sy'n hwyluso defnyddio/cymhwyso technoleg mewn modd cyson.
- Cynnal adolygiad manwl o strategaeth technoleg sefydliadol i asesu eu haddasrwydd at y diben/defnydd wedi'r pandemig oherwydd y cyflymder a'r momentwm sy'n gysylltiedig â chyflwyno technolegau newydd.
- Creu a chynnal cofrestr asedau ddeinamig ar gyfer cyflwyno, rheoli a dyrannu technolegau newydd/presennol, ynghyd â llyfrgell o adnoddau digidol cyfredol allai fod ar gael.

" . . . roedd yna heriau eraill y gwnaethon ni eu nodi mewn perthynas â chyflwyno technoleg. Nid dim ond mater o'i addasu, ei anfon a'i osod i fyny ydy hi. Mae angen treulio amser yn dod i ddeall y defnydd unigol ym mhob achos a'r hyn y maent eisiau ei wneud gyda disgwyliadau'r rheolwyr. "Gwelon ni . . . fod cael tîm clinigol a phartner o ddiwydiant gyda gwybodaeth dechnegol yn ein galluogi i gyflwyno'r systemau mewn modd rhwydd iawn."

Dadansoddiadau a Chanfyddiadau o'r Astudiaethau Ansoddol

Canfyddiadau – Uchafbwyntiau

AROLWG ARLOESI COVID-19 GIG CYMRU

Sbardunwyd yr Astudiaeth gyffredinol yn gyntaf gan Arolwg Arloesi COVID-19 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB). Bu BIPAB yn rhagweithiol yn creu ac yn rhoi ar waith offeryn casglu data mewnol, a rannwyd wedyn ar draws GIG Cymru trwy'r grŵp Arweinwyr Arloesi. Cafodd yr Arolwg hwn gryn sylw gyda chefnogaeth Jamie Roberts – chwaraewr rygbi rhyngwladol Cymru – yn ei amser fel cymrawd arloesi gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCAF). Trefnwyd arolwg BIPAB o amgylch tri phrif gwestiwn ansoddol:

- *Disgrifiwch yr ymarfer newydd a'r arloesedd rydych chi wedi bod yn rhan ohono neu wedi ei arsylwi. Gallai hyn fod ar lefel y sefydliad, lefel tîm neu'r lefel genedlaethol.*
- *Disgrifiwch unrhyw enghreifftiau ar y lefel leol, lefel y sefydliad neu'r lefel genedlaethol ble gallen ni fod wedi gwneud pethau'n wahanol.*
- *Oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym?*

Cynlluniwyd y tri chwestiwn ansoddol gan dîm arloesi BIPAB i ysgogi cymaint o fewnbwn â phosib gan ymatebwyr, er mwyn rhoi cymaint o fewnolwg â phosib, o ystyried yr amserlen a'r cyfyngiadau ar aelodau staff. Gyda'r ddau gwestiwn cyntaf, roedd cyfres o gwestiynau ategol hefyd er mwyn ceisio cael gwybodaeth ansoddol ychwanegol (ar ffurf ystadegau disgrifiadol), megis a oedd yr enghreifftiau a ddarparwyd gan yr ymatebwyr yn:

1. Materion Lleol
2. Gweithio ar lefel y sefydliad
3. Gweithio ar lefel genedlaethol
4. Ansawdd, diogelwch a gofal i gleifion
5. Cyfleusterau
6. Caffael
7. Hyfforddiant
8. AD
9. Lles staff
10. Defnydd o gynhyrchion neu dechnoleg
11. Gweithio mewn partneriaeth
12. Ymgysylltu â'r Gymuned
13. Llywodraethu a sicrwydd
14. Cyllid
15. Gweithio gyda phartneriaid diwydiant neu academaidd

ADNODDAU

Roedd goslef gadarnhaol gan ymatebwyr ynglŷn â defnydd rhagweithiol o'r adnoddau oedd ar gael, boed yn gorfforol neu'n rhithwir. Yn gyffredinol, gwelom mai'r agwedd oedd bod adnoddau'n hygyrch ac ar gae yn gyflym, yn hytrach nag yn broblem anorchfygol.

Mae ymdeimlad o hylifedd a "newid enfawr" a gynhaliwyd ar draws pob maes a safle yn amlwg ar draws y set ddata - gwelsom dystiolaeth o agweddau cadarnhaol iawn tuag at hyn. Yn ogystal, roedd rhai yn gwerthfawrogi'r cyfle i ennill profiad pellach (e.e. adleoli staff i wardiau COVID-19).

- Mae cymhwyso agwedd "gallu gwneud" at waith darparu adnoddau yn esgor ar ymddygiadau allgarol (e.e., meddygon yn prynu setiau walkie talkie i alluogi staff i gyfathrebu o'r tu mewn i gilfannau ynysu; cyswllt â 'grwpiau gwneuthurwyr' er mwyn cynhyrchu PPE yn gyflym; ac ati).
- Dulliau creadigol o ddatblygu rhychwant eang o adnoddau o ansawdd (yn aml gyda chymorth defnydd o dechnoleg) i gynorthwyo aelodau staff a chleifion i ymdopi â'r anhawster a achosir gan ddiffyg cyswllt wyneb yn wyneb (e.e., 'pecynnau enfys' i gynorthwyo cyswllt gyda phobl ag anghenion iechyd meddwl neu anabledd dysgu; 'COVID-19 cyfrinachol' – adnodd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol; a nifer o gymhorthion diagnostig eraill nad oes angen rhyngweithio corfforol ar eu cyfer).
- defnydd a'r gallu i gael gafael ar adnoddau, gan gynnwys addasu adnodd at ddibenion gwahanol er mwyn addasu'n gyflym; mae hyn yn estyn i:

  - ddefnydd o gyfleusterau;

  - addasu adeiladau/seilwaith arall at ddibenion gwahanol (e.e., canolfan methiant y galon yn Ysbyty Gorseinon, clystyru canolfannau timau aml-ddisgyblaethol symudol ar gyfer brysbennu, ac ati);

  - mynediad cyflym ac ailgyfeirio gweithgynhyrchu;

  - defnydd o weithgynhyrchu haen-ar-haen a chyfleusterau trydydd parti'on (yn gysylltiedig hefyd ag Ymgysylltu â thrydydd parti'on a chydweithwyr ym meysydd ymchwil neu fusnes – gweler yr adran nesaf).

Enghraifft: Mynediad at gyfleusterau gwneuthuro busnesau bach er mwyn cynhyrchu dyfeisiau clinigol yn gyflym, gan gynnwys datrysiadau ar gyfer theatrau llawdriniaethau.

Enghraifft: Cydweithio gyda'r Fyddin i sefydlu cadwyn gyflenwi fwy darbodus a chyflymach.

EFFAITH

Angen cofnodi a manteisio ar ein gwersi; mae ein hymchwil astudiaethau achos wedi ystyried y mater hwn yn fanylach (*gweler y ddogfen sy'n atodiad i'r adroddiad hwn i gael gweld yr astudiaethau achos a werthuswyd*).

MATERION A GODODD

Mae amlder cymharol thema Adnoddau yn cynyddu wrth ofyn i ymatebwyr ddisgrifio enghreifftiau o sut y gellid bod wedi gwneud pethau'n wahanol (h.y. pwnc Cwestiwn 2 yn yr arolwg), a hynny fel arfer yn ymateb llai cadarnhaol.

- Mae synnwyr o ansicrwydd ynglŷn â

  - y dyfodol a gallu GIG Cymru i gynnal y mynediad ystwyth at adnoddau sydd wedi dod yn "ail natur" yn ystod pandemig COVID-19;

  - dyrannu adnoddau dynol, sy'n galw am werthusiad gan Fyrddau Iechyd o ddulliau ar gyfer dyrannu adnoddau "Smart" fel anghenraid strategol yn y dyfodol. Mae tuedd i fod yn amheus yn amlwg wrth ystyried cynaliadwyedd adnoddau a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig a'r problemau posib allai godi petai'r un lefel ymdrech yn cael ei chadw'n gyson heb unrhyw gynnydd mewn cyllideb a/neu staffio.

"Mae argyfwng COVID-19 wedi effeithio ar aelodau staff yn GIG Cymru mewn ffyrdd gwahanol iawn. Rydyn ni'n gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd ac rydw i wedi sylwi bod rhai staff yn brysur iawn . . . ac eraill ddim mor brysur."

- Mae'n bwysig nodi bod yr agwedd egnïol a ddangoswyd o ran gwneud mwy, yn yr achosion hynny lle nad oedd yr amlen wedi newid, ystyrir ei bod yn anghynaladwy yn y tymor hir. Mae hyn yn berthnasol, nid yn unig i'r elfen adnoddau dynol, ond i agweddau mwy diriaethol a ffisegol hefyd megis tracio asedau a chynnal y cyfarpar ychwanegol a brynwyd yn gyflym, yn ogystal â'u cofnodi'n gywir ar restri eiddo, er mwyn osgoi gwastraff yn y dyfodol.
- Mewn achosion eraill, nodwyd mynediad at adnoddau TG sylfaenol hefyd fel mater i'w godi - fel arfer mewn perthynas â chanfyddiad bod gwahaniaeth posib yn y ffordd y caiff gwahanol gategorïau staff eu trin. Gallai hyn fod wedi achosi lleihau teimladau o hunan-werth yn y rhai nad



Mae nifer o grwpiau o fewn GIG Cymru wrthi'n rhagweithiol yn myfyrio ynglŷn â beth mae COVID-19 wedi'i olygu i'w swyddogaeth benodol nhw, a'r adnoddau a gaiff, ac maent yn dangos eu bod yn mabwysiadu meddylfryd twf a newid wedi'i gyfuno ag agwedd gadarnhaol tuag at gynllunio ar gyfer datrysiadau hir-dymor.

YMGYSYLLTU

"[Mae] ymateb COVID-19 wedi dangos bod gan y sector cyhoeddus rôl gydweithredol i'w chwarae o ran lles, yn hytrach na bod yn sefydliadau unigol."

Gwelwyd bod **ymgysylltu amlddisgyblaethol gyda grŵp rhanddeiliaid ehangach,** gan gynnwys sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat, wedi cael effaith arwyddocaol yn galluogi'r gweithgareddau arloesi a newid gwasanaethau a adroddir yn yr arolwg.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at:

- gryfhau galluoedd ac ymgysylltiad timau trwy integreiddio prosesau â thechnoleg,
- cyflwyno disgyblaethau eraill (e.e., defnydd o wyddor ymddygiad mewn timau cyfathrebu er mwyn sianelu'r cyfathrebiadau a'r ymatebion sy'n cael fwyaf o effaith yn ystod COVID-19).

Amlygodd hyn:

- ymwybyddiaeth bod cydgyfeirio cynyddol rhwng technoleg a phrosesau sefydliadol;
- dull cyflymach aml-/rhyng-/traws-ddisgyblaethol o weithio mewn proffesiwn sy'n seiliedig ar wybodaeth ac ymarfer ac sy'n newid yn gyflym;
- parodrwydd i gofleidio'r model newydd.

Mae tystiolaeth gref o ***gynnydd sylweddol mewn cyfathrebu rhwng dau neu fwy o adrannau/unedau*** ac yn gyffredinol ar draws yr holl sector gofal iechyd; ymddengys bod y cyfathrebiadau hyn yn ***deillio o anghenraid*** (e.e., er mwyn datrys problem neu warantu gwasanaethau penodol), yn ogystal â ***phorthi ar ei hun mewn cylch rhinweddol***:

- arweiniodd cynnydd mewn cyfathrebu at welliannau cyflym ac addasiadau i wasanaethau/ymarfer o fewn amserlenni byrrach gyda llai o fiwrocratiaeth;
- arweiniodd hyn yn y pen draw at well (neu o leiaf cystal) penderfyniadau, gydag effeithiau cadarnhaol ar les aelodau staff a chleifion fel ei gilydd.

Cafwyd:

- ***cynnydd yn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau***, galluogi rhyngweithio cymdeithasol, ac i ***"farchnata" y newidiadau i wasanaethau***;
- defnydd o lu o sianeli cyfryngau i ymgysylltu'n rhithiol, gan leihau rhwystrau rhag newid ymarfer a sicrhau gwell derbyniad i ddulliau amgen (e.e. therapïau a gynhelir ar-lein).

Ynghyd â'r cynnydd mewn ymgysylltu, yn aml cafwyd proses gyflymach o wneud penderfyniaau, yn arbennig pan oedd gwasanaethau newydd yn cael eu cynllunio a'u darparu. Mae tueddiadau o'r fath wedi cael eu harchwilio yn fanwl iawn drwy'r astudiaethau achos – *gweler y ddogfen Atodiad*. Mae hyn wedi'i nodi hefyd fel agwedd y dylid ei symud ymlaen yn gadarn, er mwyn galluogi gweithio'n rhwyddach ar draws adrannau, gan ddangos bod elfennau deinamig o'r fath yn dal i esblygu ac wedi'i wasgaru'n anwastad.

Yn gyffredinol, gwelir bod ymgysylltu yn allweddol i sicrhau y mabwysiedir newid hir-dymor ac i sicrhau newid o fewn GIG Cymru. Gwelir bod cynnydd mewn ymgysylltu gyda'r llywodraeth neu rai sy'n gweithredu ar lefel genedlaethol yn bwysig ar gyfer hyrwyddo newid o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny a'i fabwysiadu mewn modd mwy cydseiniol a chydlynus.

GALLUOEDD TIMAU

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at ***ddatblygiad sgiliau ychwanegol yn y gweithlu, fel rhan o ddiwylliant newid sydd i'w gael yn y sector gofal iechyd ar hyn o bryd***. Mae nifer o enghreifftiau o ddiwylliant datblygu proffesiynol parhaus sydd wrthi'n cael ei ffurfio, sy'n darparu sgiliau ychwanegol i aelodau staff.

Mae'n allweddol bod y sector yn datgloi potensial ei weithlu yn gyson, ac yn cynyddu gwybodaeth, sgiliau a galluoedd arloesi aelodau staff.

Mae ***gweithio rhithiol*** wedi darparu cyfleoedd pellach i ddod â thimau amrywiol at ei gilydd i berfformio'n gyson ar lefelau uchel. Serch hynny, rydym wedi nodi'r mater a godwyd mewn perthynas â chynaliadwyedd hir-dymor parhau i orymestyn adnoddau ac ymdrechion dros gyfnod hir.

Daw llawer o enghreifftiau o'r arfer orau gan amrywiaeth eang iawn o staff GIG Cymru, nid gan y clinigwyr yn unig. Mae'r ***synnwyr o ymrymuso*** ac ***ysbrydoliaeth*** a nodwyd yn yr ymatebion yn dangos bod ***rhwystrau ar hyn o bryd rhag rhyngweithio ar draws y sefydliad yn is***. Mae timau sy'n gynyddol integredig ac yn cynnwys gweithredwyr amrywiol yn gallu cael y deilliannau gorau trwy ddefnyddio galluoedd wedi'u cyfuno er mwyn darparu gydag ansawdd uchel.

Bydd gwerthuso timau mewn perthynas â newidiadau i brosesau ac arloesi gyda phrosesau newydd yn ein galluogi i gael mewnwelediad pellach i'r pwnc dan sylw.

DIWYLLIANT SEFYDLIADOL

"Rwy'n teimlo bod gweithlu GIG Cymru nawr mewn cyflwr sy'n barod i dderbyn newid, yn fwy felly nag erioed o'r blaen"

"Roedd fel petai rheolwyr wedi toddi i ffwrdd ac fe wnaethon ni i gyd fynd ymlaen â'r gwaith."

Mae'r prif agweddau a nodwyd yn y data yn ymwneud yn bennaf â:

- chwalu ***seilos***;
- newid model o ran sut y caiff gwaith datblygu ei gyflawni – ***ychwanegu mwy o werth trwy ddatblygiadau mewnol yn hytrach na datrysiadau masnachol;***
- mwy o ryddid i weithio ar brosiectau bach;
- ***newid yn yr agwedd tuag at weithio'n rhyngddisgyblaethol a rhyngadrannol*** (e.e. peirianwyr adsefydlu yn cynnig eu harbenigedd; datblygiad datrysiadau prototeipio fel sbrint yn fewnol gyda rhagor o ryddid i symud datrysiadau yn eu blaen i'r theatr);
- pwyslais cynyddol ar ***golegoldeb a lleiha rhwystrau sy'n deillio o hierarchaeth***, gyda ***"mwy o gydnabyddiaeth ac o anfodlonrwydd gydag anghyfartaleddau presennol";***
- agwedd weithredol tuag at ***geisio lleihau elfennau biwrocrataidd*** mewn perthynas â gwaith dydd-i-ddydd arferol yn ogystal â gweithgareddau eithriadol (e.e., cyflwyno dyfeisiau newydd/treialu rhywbeth newydd), ***tra'n cynnal ansawdd y broses gwneud penderfyniadau***.

Yn ôl y disgwyl, ac yn deillio o anghenraid o bosib, mae'r symudiad at gyfarfodydd rhithiol a gweithio o gartref wedi newid y ddeinameg ar gyfer nifer o adrannau sydd nawr yn ystyried cyflwyno wythnos waith fwy hyblyg ar sail hir-dymor. Mae'r elfennau hyn wedi'u hwyluso gan synnwyr cynyddol o ymrymuso, y mae aelodau staff yn awyddus iawn i'w gadw a manteisio arno. Gwelir bod hunan-fyfyrio a myfyrio ar lefel sefydliad yn allweddol i ddeall sut y gellir asesu a gwerthuso newid sefydliadol a newidiadau mewn meddylfryd, er mwyn galluogi'r newid cadarnhaol mwyaf posib a lleihau'r risg o newid negyddol (e.e., "gorddibynnu ar arweinyddiaeth gorchymyn a rheoli, o'r brig i lawr").

Ymhlith y themâu a nodwyd gan yr ymatebwyr, mae: anghyfartaleddau iechyd; lles staff a gwytnwch systemau; lle a chefnogaeth i ddysgu - wedi'i alluogi gan fwy o ymgysylltu ac yn arwain at wella galluoedd timau a synnwyr o berthyn ymysg y cyfranogwyr. Cafwyd cydnabyddiaeth weddol amlwg o'r cyflwr hylifol y mae aelodau staff yn ei brofi, a bod angen cynnal momentwm.

Ceir pwyslais sylweddol ar les a chefnogaeth iechyd meddwl i staff yn ogystal ag i'r boblogaeth, ac mae ymatebwyr wedi pwysleisio pwysigrwydd elfennau o'r fath i GIG Cymru ar y lefel uchaf.

MATERION A GODODD

Daeth rhai elfennau negyddol i'r amlwg:

- cyfathrebu amserol;
- yr angen i fod yn fwy tryloyw;
- dadleuir dros gael agwedd fwy personol tuag at gyfathrebu gyda gwasanaethau a rennir, er mwyn osgoi'r ***"teimlad ni a nhw"*** wrth ddelio â'r gwasanaethau hynny sy'n cynnal eu busnes mewn modd dienw;
- rheolwyr yn cyflwyno rhwystrau mewn rhai achosion (neu ganfyddiad bod agwedd arwahanol, heb fod ***"yn gweithio ar wyneb y graig"***), sy'n arwydd o faes chwarae nad yw'n homogenaidd;
- ceir camau rhagweithiol tuag at sicrhau y caiff arloeseddau neu newidiadau i wasanaethau sy'n arwain at newidiadau diwylliannol hir-dymor eu rhoi ar waith ac mae'r ymatebwyr yn gobeithio y gallant ledu a dod yn systemig. Fodd bynnag, ***mae pryderon yn llechu y gallai'r peiriant sefydliadol, wedi'r pandemig, lyncu'r meddylfryd newid eto.***





Ymatebion yn ôl Amlder Themâu Echblyg (Gwyrdd) / Goblygeidig (Glas), C1.

- Y prif ddarlun (wedi'i normaleiddio yn ôl y thema fwyaf fesul grŵp)
- Mewnosodiad: Amlderau absoliwt





Ymatebion yn ôl Amlder Themâu Echblyg (Gwyrdd)/Goblygeidig (Glas), C1.

- Y prif ddarlun (wedi'i normaleiddio yn ôl y thema fwyaf fesul grŵp)
- Mewnosodiad: Amlderau absoliwt

PROSESAU SEFYDLIADOL

"[Bu] cyflymu o rai mentrau i wella gwasanaethau [oherwydd COVID-19]."

Y thema hon sy'n codi'r ail nifer fwyaf o weithiau yn y set data hon. Mae'r teimlad wedi'i rannu'n weddol gyfartal rhwng cadarnhaol a negyddol, gyda rhywfaint yn fwy o achosion cadarnhaol.

Mae'r ymatebwyr wedi datgelu nifer o arferion newydd a newidiadau i brosesau sefydliadol. Mae cyfweliadau manwl wedi rhoi cip ar nifer o achosion sydd wedi deillio o gynnydd mewn cyfathrebu a/neu weithrediadau â hierarchaeth wastad ar draws gwahanol weithredwyr. Mae goruchwyliaeth uniongyrchol gan glinigwyr wedi profi'n ddichonadwy ac wedi arwain at benderfyniadau cyflymach o ansawdd uchel. Mae rhai o'r practisau bellach wedi'u cyflwyno'n genedlaethol a thu hwnt: darpariaeth iechyd meddwl digidol ar gyfer plant a phobl ifanc; creu rhwydwaith ledled y DU - neu "gymuned ymarfer" - o beirianwyr clinigol i rannu problemau ac atebion o fewn peirianneg adsefydlu; mabwysiadu proses brysbennu diwydiant SMTL fel porth i gefnogi GIG Cymru ac ymgysylltu â'r diwydiant; yr ymarfer caffael offer amddiffyn personol ar y cyd pedair gwlad dan arweiniad Cymru gan wasanaethau Caffael Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru; ymhlith eraill.

Tarfwyd ar lawer o brosesau sy'n gysylltiedig â chyswllt wyneb-yn-wyneb ac maent wedi symud i fod ar-lein. Ni fu'r broses hon heb ei rhwystrau, o safbwynt mynediad at/mabwysiadu/defnyddio technoleg, ac o ran cyfyngiadau biwrocrataidd (e.e., roedd defnyddio llwyfannau ar-lein penodol yn hytrach na rhai eraill yn cael ei weld fel rhywbeth oedd yn tarfu ar yr ymdrech i ddarparu trawsnewidiad di-dor wrth ddarparu gwasanaeth).

Yn aml, mae'r ymatebion negyddol a gysylltir â'r thema hon yn ymwneud â themâu eraill, megis Adnoddau (neu ddiffyg adnoddau) sy'n cyfyngu ar effeithiolrwydd prosesau (e.e., mynediad at gyfarpar TG ar gyfer ymgynghoriad rhithiol). Serch hynny, yn gyffredinol, ymddengys bod cynnydd sylweddol mewn cyflymder yn deillio o brosesau mwy darbodus (gan gynnwys prosesau cymeradwyo treialon clinigol). I nifer o ymatebwyr, mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â'r angen am y fiwrocratiaeth a fodolai cynt a'r haenau niferus o fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â'r prosesau gwneud penderfyniadau yn GIG Cymru ac mewn byrddau iechyd.

Ar yr un pryd, mae profiadau megis cael y Fyddin yn rhan o sicrhau cadwyni cyflenwi, trefnu gwasanaethau ar sail canolfannau canolog a mwy, wedi dangos trywyddau newydd ar gyfer ***gwelliannau 'technoleg isel' sylweddol i brosesau*** sy'n rhoi manteision gwirioneddol i lawr y lein.

Mae cydberthynas rhwng nodi gwelliannau cyfathrebu mewn ymatebion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i brosesau a phrofiad o'r gwasanaethau, tra bo ***prosesau newydd a ddatblygwyd mewn cyfnod o angen wedi profi eu bod yn darparu manteision mewn cyfnodau arferol o ran darparu gwasanaethau***.

Mae'r ***angen i gofnodi'r hyn a ddysgir*** wedi'i wneud yn eglur gan nifer o ymatebwyr, ynghyd â'u parodrwydd i fod yn rhan o broses o'r fath.

Ymddengys bod y sefydliad mewn ***cyflwr agored i ddysgu*** ar hyn o bryd ac mae angen i hynny barhau er mwyn galluogi newidiadau arhosol a thrawsnewid gwasanaethau.

Y CYHOEDD A CHLEIFION

"Roedd yn foment hyfryd cael mynd â rhywbeth i ddefnyddiwr y gwasanaeth nad oedd yn sgript. Roedd wedi llonni fy nydd i hefyd gan mai ychydig iawn o gefnogaeth deuluol gadarnhaol sydd gan y ddynes dan sylw, felly roedd yn hyfryd cael rhoi rhywbeth iddi oedd yn ei hatgoffa ei bod yn bwysig."

Mae barn a theimladau'r ymatebwyr mewn perthynas â'r thema hon yn gymysg.

Ar y naill law, mae sylweddoliad bod y newidiadau i'r ffordd y mae'r cyhoedd yn rhyngweithio â staff gofal iechyd yn angenrheidiol. Ar y llaw arall, mae eu profiad o'r gwasanaethau sydd wedi newid wedi ei lygru gan ddylanwad ***nifer o weithredwyr yn cyfathrebu gwybodaeth anghyson.***

Yn gyffredinol, ceir ***teimlad gorgadarnhaol*** gan ymatebwyr, gydag arwydd clir bod y rhan fwyaf o newidiadau wedi'u gwneud gyda golwg ar brofiad y claf, ac i sicrhau darpariaeth o ansawdd er lles y claf yn y pen draw.

AWGRYM

Gallai awgrymiadau defnyddiol a wnaed gan ymatebwyr y dylid cynnal ymchwil i'r gostyngiad yn y galw am wasanaethau fwrw goleuni ar y ddeinameg gymhleth sydd y tu ôl i'r rhyngweithio rhwng staff GIG Cymru a chleifion/y cyhoedd.

TECHNOLEG

Technoleg ydy'r thema sy'n codi fwyaf – yn echblyg ac yn oblygiedig yn nata arolwg yr ymatebwyr. Mae technoleg wedi bod yn ffactor allweddol trwy gydol pandemig COVID-19 a bydd yn parhau felly am y dyfodol rhagweladwy.

Mae ymatebwyr wedi nodi:

- datblygiad technoleg newydd;
- mabwysiadu a defnyddio technoleg newydd,

i alluogi prosesau newydd a rhai sydd wedi'u newid, gwaith tîm ac ymatebolrwydd.

Nodwyd effeithiau sydd â'r potensial i alluogi newidiadau diwylliannol hefyd:

- Clinigau a brysbennu rhithiol, teleofal a theletherapi (ar draws rhychwant o arbenigeddau gan gynnwys cardioleg ac adsefydlu cardiolegol; epilepsi ac asesiadau niwroddatblygiadol o bell i blant; asesu seiciatryddol; cefnogaeth seicolegydd; gwasanaethau erthylu, ac ati);
- Datblygu botiau deallusrwydd artiffisial uwch (e.e., CERi); datrysiadau peirianyddol wedi'u teilwra (e.e., offeryn mewndiwbio a thraceostomi; offeryn endosgopi a chyfarpar ar gyfer wardiau); prosesau a gwasanaethau a estynnir gan dechnoleg:
  - gwasanaethau ac ymarfer (e.e., cael gwared ar gontractio allanol ac ôl-groniadau radioleg trwy alluogi adrodd o bell);
  - awtomeiddio prosesau a rheoli tasgau.
- Creu canolfannau technoleg sy'n canolbwyntio ar greadigrwydd a datrysiadau, a hyfforddiant a ddarperir yn ddigidol (e.e., llwyfan digidol ar gyfer gofal lliniarol a rhaglen addysg diwedd bywyd; sesiynau mam a'i babi rhithiol ar Zoom; hyfforddiant i nyrsys a meddygon ar lwyfannau rhithiol).

Mae technoleg wedi ***galluogi datrysiadau creadigol*** ar gyfer rhychwant o sefyllfaoedd, wedi hwyluso ymarfer, a datblygiad datrysiadau a pheilotau i'w rhoi ar waith yn gyflym.

- Mae'r rhain wedi'u ***datblygu'n gydweithredol*** gyda nifer o randdeiliaid cyhoeddus-preifat ***neu'n gyfan gwbl fewnol*** (e.e., integreiddio Attend Anywhere; ap ar gyfer cyfathrebu â chleifion diabetig; ap ymataliaeth ar gyfer plant).
- Mewn rhai achosion, ***mae partneriaethau wedi'u ffurfio*** er mwyn mabwysiadau llwyfannau digidol sy'n bodoli (e.e, mae Patients Know Best wedi galluogi cyfathrebu diogel rhwng cleifion sydd wedi'u hynysu a'r byd y tu allan).
- Mae'r gallu i gwblhau datrysiadau technolegol yn gyflym yn ystod yr argyfwng wedi amlygu'r ***cyfoeth o bosibiliadau*** a photensial sydd heb ei gyffwrdd o fewn GIG Cymru. Bydd gwaith pellach i ddadbecynnu prosesau o'r fath yn hynod werthfawr i esblygiad hir-dymor y sefydliad.
- Ceir tystiolaeth o'r defnydd o offer technolegol (e.e., llwyfannau cyfryngau) i gyfathrebu â chleifion a hysbysebu i gleifion yn uniongyrchol, er y cafwyd rhai trafferthion mewn perthynas â biwrocratiaeth wrth geisio defnyddio sianeli swyddogol.

PRYDERON

- Yn ystod camau cynnar y pandemig, nodwyd bod PPE yn annigonol neu'n anodd i'w gaffael.
- Nodwyd bod angen diweddaru cynlluniau parhad gwasanaethau.

Mae'r materion hyn yn cael eu nodi'n llai aml gydag ymatebion mwy diweddar.

Ymhellach meysydd hyn for concern:

- Mewn rhai meysydd nid oedd, ***datblygu polisi*** yn cael ei ddilyn gan fynediad at adnoddau a thechnoleg (e.e., diffyg cyfarpar dihalogi er bod polisïau cadarn yn eu lle).
- Mae safonau a rheoliadau mewn perthynas â chynhyrchu technoleg yn fewnol, neu fabwysiadu offer mewn rhai lleoliadau islaw'r optimwm, sy'n creu problemau o ran dylunio, datblygu, dilysu a mabwysiadu datrysiadau wedi'u teilwra yn gyflym ac yn ymatebol. Ceir tystiolaeth bod y ddeinameg newydd hon yn creu anawsterau o ran mynediad amserol a/neu gyfartal at offer a thechnolegau – yn arbennig yn y camau cynnar (e.e., tocynnau VPN, meddalwedd a chaledwedd – yn enwedig gliniaduron); ac o ran cyfleoedd i ddysgu sut i'w defnyddio yn effeithiol ac yn effeithlon.
- Nodwyd ***"gagendor digidol"*** hefyd wrth geisio rhoi clinigau rhithiol ar waith (h.y., diffyg ffonau clyfar, band eang yn gorfodi cyswllt dros y ffôn yn unig mewn rhai cymunedau).
- Roedd pryderon hefyd bod ***dull biwrocrataidd o gyfathrebu*** yn golygu bod arloeseddau technoleg a phrosesau yn rhy araf yn cael eu rhannu.

Mae'r canlyniadau hyn wedi cael eu harchwilio ymhellach drwy'r astudiaethau achos manwl – gweler y ddogfen Atodiad.

ARALL

"[Mae] ymateb COVID-19 wedi dangos bod gan y sector cyhoeddus rôl gydweithredol i'w chwarae o ran lles, yn hytrach na bod yn sefydliadau unigol."

Yn y thema hon, rydym wedi ymgorffori nifer o themâu amrywiol sydd wedi'i hymgorffori yn atebion yr ymatebwyr. Mae'r themâu hyn naill ai o natur drawsbynciol, i ryw raddau, neu heb ffitio'n daclus – neu'n gyfan gwbl – i mewn i un o'r themâu eraill.

Lles oedd y thema Arall amlycaf ar gyfer y cwestiwn ansoddol cyntaf, gan godi amlycaf yn y naratif ar gyfer y tri phrif gwestiwn. Dilynwyd hyn yn agos gan Gydweithio (y thema y cyfeiriwyd ati fwyaf o weithiau yn y categori Arall), *Cyfathrebu/ cyfathrebu gwybodaeth, a Chofnodi/ymarfer/trosglwyddo/ dysgu gwybodaeth.*

Cyffyrddodd y drafodaeth oedd yn gysylltiedig â ***Lles*** a nifer o feysydd gwahanol, megis lles aelodau staff y GIG, staff cynorthwyo (gofalwyr), a chleifion (trafodir hyn hefyd yng nghyd-destun thema'r Cyhoedd a Chleifion uchod).

- Ceir tystiolaeth o: ***gefnogaeth ragweithiol i iechyd corfforol yn ogystal â meddyliol gan seicolegwyr, a chwnsela i aelodau staff,*** monitro ***lles*** trwy arolygon cyfnodol; addasu gofodau i greu mannau i ymlacio; newidiadau cadarnhaol o ran cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith o ganlyniad i weithio o bell, a mwy.
- Mae ***teimladau cadarnhaol yn bennaf tuag at y nifer o fentrau lles sydd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer aelodau staff a'r cyhoedd***, gan gynnwys mentrau mwy (e.e., prosiect lles meddyliol a gychwynnwyd ar gyfer holl boblogaeth Gwent er mwyn gwrthbwyso effaith COVID-19 ar grwpiau dan-risg).
- Fodd bynnag, ceir nifer o bryderon hefyd mewn perthynas ag ***anghysonderau rhwng gwahanol ardaloedd*** a ***diffyg cefnogaeth uniongyrchol,*** sy'n peri pryder ymhlith aelodau o staff rheng flaen.

Ceir sylw amlwg i ***gyfathrebu***, ynghyd â *chyfathrebu gwybodaeth, a mynediad at wybodaeth,* ac yn benodol, gyda theimladau negyddol, fel y gwelir mewn ymatebion i'r ail gwestiwn ansoddol:

- Prosesau islaw'r optimwm ar gyfer cyfathrebu a rhoi gwybodaeth i staff;
- Cyfeiriodd nifer at ddulliau heb eu strwythuro neu rai anodd/araf (galwadau am gyfathrebu rhwydd er mwyn gwella rhannu adnoddau) neu negeseuon dryslyd/heb roi manylion a rhai a oedd yn groes i'w gilydd. Mae'r broblem ddiwethaf i'w gweld mewn cyfeiriadau at wybodaeth sy'n deillio o'r GIG ac o'r llywodraeth fel ei gilydd, ac wrth gyfathrebu'r wybodaeth honno trwy sianeli'r rheolwyr.

Ar y llaw arall, disgrifiwyd pethau fel yr e-bost diweddaru dyddiol fel rhywbeth "hynod werthfawr" gan nifer o ymatebwyr.

Roedd ***cydweithio*** yn fater eang ei gwmpas ac amlochrog, ac yn cynnwys meysydd fel cyhoeddus-preifat, llywodraeth, academia, "helics driphlyg" llywodraeth/diwydiant/academia a chydweithredu rhwng byrddau iechyd eraill. Darparwyd nifer o enghreifftiau cadarnhaol yn yr adrannau penodol ynglŷn â **Thechnoleg, Prosesau Sefydliadol, Diwylliant Sefydliadol**, yn ôl y disgwyl o ystyried natur y thema.

Ceir enghreifftiau o:

- ***ddarparu gwasanaethau newydd i gleifion trwy gydweithio*** (e.e.., datblygu ap ymataliaeth i blant – cydgynhyrchiad rhwng Aparito, Comisiwn Bevan a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys; lab peirianneg ddigidol a ffisegol uwch Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – gofod creadigol cydweithredol ar gyfer datrys heriau gweithleoedd, mewn cydweithrediad â diwydiant ac academia);
- prosiectau ar y cyd gyda mynediad at gyllid llywodraeth ar gyfer ymchwil a datblygu (e.e., galwadau cyflym wedi'u targedu trwy'r Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) ar ran Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gyda chydweithrediad SBRI a Llywodraeth Cymru).

Ar y llaw arall, cafwyd ***galwadau am fwy o waith gyda diwydiant a rhwng adrannau*** hefyd, sy'n arwydd bod potensial o hyd i ehangu cydweithio, hyd yn oed yn ystod cyfnod o argyfwng. Gellid rhoi rhagor o amcanion ac ymarfer gosod targedau ar waith hefyd ar draws ffiniau adrannol. Codwyd y pwynt hwn mewn perthynas â "***hwyluso diwylliant o lwyddiant a rennir a phawb yn ennill***".

Mae'r ymatebwyr wedi myfyrio am y ***dysgu*** sydd wedi digwydd yn ystod y pandemig, ac yn ***dadlau dros ganfod mecanweithiau i sicrhau y gellir cadw gafael ar wybodaeth a dysg, eu cofnodi a'u rhannu***. Mae'r pandemig wedi'i weld fel cyfle i staff ddysgu i weithio mewn ffyrdd gwahanol yn ogystal ag i gynnig arbenigedd a gwasanaethau i'r GIG yn ehangach a thu hwnt i hynny.

MATERION SY'N CODI

- Mae newidiadau sy'n gysylltiedig â phrosesau yn ymddangos fel thema allweddol sy'n codi o'r data.
- Creadigrwydd aelodau staff yn creu setiau newydd o adnoddau er budd cleifion.
- Mae lles staff yn thema waelodol a ailadroddir yn y naratif.
- Mae staff ar y cyfan yn falch o agwedd arweinwyr GIG Cymru a'u Bwrdd Iechyd, gyda synnwyr newydd o ymrymuso yn bresennol ar adegau.
- Fodd bynnag, roedd rhywfaint o rwystredigaeth yn y camau cynnar gyda biwrocratiaeth fewnol ac, i raddau llai, gyda'r llywodraeth ganolog.

Canfyddiadau – Uchafbwyntiau

ASTUDIAETH PROFIADAU COMISIWN BEVAN (Cam I/II)

Mae Comisiwn Bevan wedi datblygu rhwydwaith ryngwladol helaeth o gomisiynwyr, enghreifftwyr, eiriolwyr a chyfranogwyr mewn rhaglenni Mabwysiadu a Lledaenu. Trwy'r rhwydwaith unigryw hwn, cynhaliodd y comisiwn arolwg o aelodau'r rhwydwaith ynglŷn â'u profiadau yn ystod pandemig COVID-19, gan ddarparu persbectif gwerthfawr gan unigolion a grwpiau sydd ynghlwm â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sector.

Gwnaeth Comisiwn Bevan gynllunio a dosbarthu dau arolwg (cam I a II).

ASTUDIAETH PROFIADAU COMISIWN BEVAN (Cam I)

Roedd astudiaeth cam I, a gynlluniwyd gan y comisiwn, yn anelu at gofnodi sut roedd COVID-19 wedi cael effaith ar waith a bywydau pobl yng Nghymru, dysgu o'r profiadau hynny ac adeiladu ar sylfeini'r elfennau cadarnhaol – yn newidiadau i arferion gweithio, sut mae pobl yn cyrchu ac yn derbyn gwasanaethau, neu gyfraniadau eraill a wnaed gan aelodau staff neu'r cyhoedd. Dosbarthwyd yr arolwg dros gyfnodau pedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020, a gofynnodd dri chwestiwn i gyfranogwyr, fel y'u nodir isod:

- *Rhestrwch hyd at dri newid/mater sydd wedi codi o ganlyniad i COVID-19 sy'n gadarnhaol ar y cyfan yn eich barn chi.*
- *Rhestrwch hyd at dri newid/mater sydd wedi codi o ganlyniad i COVID-19 sy'n negyddol ar y cyfan yn eich barn chi ac y mae angen mynd i'r afael â nhw.*
- *Rhowch unrhyw sylwadau/pwyntiau ychwanegol yr hoffech eu gwneud ynglŷn ag argyfwng COVID-19 a chamau sydd wedi dilyn.*

ADNODDAU

Disgrifiodd ymatebwyr sut y bu cyflymu sylweddol o ran argaeledd, mabwysiadau ac ehangu'r defnydd o adnoddau technolegol neu lwyfannau digidol, gan awgrymu y bu 'cyflymu sydyn o ran mabwysiadu technoleg ddigidol . . . ' ar draws gwasanaethau GIG Cymru. Ymhlith yr adnoddau digidol a nodwyd gan ymatebwyr, mae:

- rhagor o fynediad at Borth Clinigol Cymru;
- AccuRx for O Bell ymgynghori and glaf text messages;
- llwyfannau sy'n fwy eang eu defnydd megis Microsoft Teams, Zoom a Skype;
- cyfeiriwyd hefyd at y defnydd ymarferol o adnoddau o'r fath trwy ddefnyddio wardiau rhithiol a chymorth rhithiol ehangach i gleifion fel deilliant cadarnhaol.

Adroddodd yr ymatebwyr hefyd am newidiadau cadarnhaol mewn perthynas â'r defnydd o adnoddau dynol trwy gydol y pandemig.

Ble roedd angen adleoli staff i amgylcheddau gwahanol, roedd ymatebion yn canmol gwaith caled ac ymroddiad aelodau o staff iechyd a gofal cymdeithasol, a oedd wedi dangos gwytnwch a gallu i ragori ac i weithio'n hyblyg mewn amryw o rolau anghyfarwydd ar draws y system gofal iechyd.

Roedd hyn wedi hyrwyddo *'trawsffrwythloni syniadau'* a dangosir hynny gan un ymatebydd a roddodd fanylion am y rôl gadarnhaol y mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (AHPau) wedi ei chwarae trwy gydol y pandemig pan maent wedi cael eu hadleoli:

"Mae Therapyddion Galwedigaethol mewn gofal sylfaenol a'u gwaith yn rheoli gorbryder wedi bod yn anhygoel".

Gellid defnyddio'r hyn a ddysgwyd o hynny yn y dyfodol i lywio datblygiad modelau gweithlu newydd.
Adroddodd yr ymatebwyr hefyd bod pobl yn peidio â mynychu ysbytai oherwydd ofn cael eu heintio wedi rhyddhau adnoddau mewn lleoliadau gofal, megis gwelyau, a chapasiti staff i'w hadleoli.

Ystyriwyd hefyd bod staff GIG Cymru yn fwy gofalus yn eu defnydd o adnoddau, er enghraifft, yn "***fwy detholus o ran gwneud ceisiadau am ddiagnosteg***".
Yn ychwanegol, roedd yr ymatebion yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar ***ddatblygu seilwaith*** mewn ymateb i'r pandemig, gan gynnwys:

- canolfannau rheoli COVID-19;
- canolfannau llif brysbennu;
- canolradd care hybiau cymunedol;
- ehangu cyfleusterau gofal yn y gymuned;
- ysbytai maes.

Yn ogystal, mae'r canfyddiadau'n awgrymu elfennau o newid yn ymddygiad y cyhoedd, gydag ymatebwyr yn adrodd bod adnoddau cymunedol megis fferyllfeydd cymunedol yn cael eu defnyddio'n amlach gan gleifion.

MATERION A GODODD

- Cyfeiriodd yr ymatebwyr mewn modd negyddol at ddiffygion arwyddocaol mewn parodrwydd, buddsoddi a chynllunio yn nhermau'r adnoddau sydd eu hangen mewn senarios o argyfwng. Disgrifiwyd y rhain gan gyfeirio at PPE, citiau profi, darpariaeth ocsigen, peiriannau anadlu a diffyg personél meddygol cymwys.
- Codwyd pryderon hefyd mewn perthynas ag ***effaith dargyfeirio adnoddau*** oherwydd COVID-19 ar ofal yn ehangach ac ar drin cyflyrau eraill. Fe'u mynegwyd hefyd mewn perthynas â'r diffyg capasiti, blaenoriaethu a'r ***lefelau isel o gyllid a ddyrennir i ofal cymdeithasol***, a'r ***straen ychwanegol a osodwyd ar wasanaethau gofal sylfaenol***.
- Nododd cyfranogwyr hefyd nad oedd ***adnoddau technolegol*** ynghyd â chysylltedd â'r rhyngrwyd, ***ar gael i bawb,*** yn staff GIG Cymru neu'r cyhoedd yn gyffredinol, ac roedd y newid ym mhatrwm gofal wedi hyrwyddo, mewn rhai achosion, ***allgáu digidol***, a gallai hynny awgrymu y gall ***technoleg ysgogi cynnydd mewn anghyfartaledd o ran mynediad at wasanaethau iechyd a gofal***.



Cymharu ymatebion Cadarnhaol a Negyddol fesul thema.

YMGYSYLLTU

"Gweithio mewn timau heb ffiniau ar draws sectorau, gyda'r nod cyffredin o ofalu am fudd y claf uwchlaw popeth."

Mewn perthynas ag ymgysylltu, cafwyd cydnabyddiaeth gadarnhaol gan ymatebwyr i well perthynas waith rhwng ac ymhlith cyrff gofal yn y gymuned, gofal sylfaenol, gofal eilaidd, a gofal cymdeithasol, yn ogystal â gweithredwyr yn ehangach (gan gynnwys awdurdodau lleol, prifysgolion, y trydydd sector a'r sector preifat).

Nododd yr ymatebwyr bod ***"llai o ffiniau, gyda llai o dystiolaeth o weithio mewn seilos", "gwell cydweithio"*** a ***"cydweithio mwy effeithiol"*** wedi'u cefnogi gan***"well perthynas waith"*** o fewn timau, yn ogystal ag ar draws sefydliadau, a chyda phartneriaid allanol.

Awgrymwyd hefyd bod ***"clinigwyr yn cael llais mewn penderfyniadau lleol, felly am unwaith, nid yw penderfyniadau o'r fath yn cael eu gyrru'n gyfan gwbl gan fiwrocratiaid canolog. . . ."***. Mae hyn yn rhoi awgrym cynnil o welliannau o ran proses a rennir ar gyfer gwneud penderfyniadau. I gefnogi hynny, pwysleisiodd ymatebwyr **werth "cyfarfodydd rheoli safle dyddiol"** a **"chydleoli" cyfarfodydd timau amlddisgyblaethol fel llwyfan i ysgogi rhagor o rannu gwybodaeth, wedi'i hwyluso'n aml gan lwyfannau cyfathrebu digidol**.

I'r gwrthwyneb fodd bynnag, cyfeiriodd ymatebwyr eraill at ***"ddiffyg integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol"*** gan awgrymu bod perthnasoedd gwaith gwael a seilos rhwng partneriaid, sy'n atal cyfathrebu effeithiol, yn parhau, ac mewn rhai achosion, mae wedi arwain at ***"ddyblygu prosiectau tebyg, gydag amharodrwydd i rannu gwybodaeth"***.

Ymhellach, nododd ymatebwyr eraill bod 'gagendor' rhwng llywodraeth a GIG Cymru, yn ogystal ag ar lefel byrddau iechyd, gan awgrymu bod hynny'n cael effaith niweidiol ar gyfathrebu canllawiau a gwybodaeth eglur i staff ac i'r cyhoedd, gan arwain at bryderon ac ofn.

Y CYHOEDD A CHLEIFION

"Pobl yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain ac yn cymryd hunanfeddyginiaeth ar gyfer mân anhwylderau."

Nododd ymatebwyr faterion cadarnhaol a negyddol mewn perthynas â chleifion a'r cyhoedd yn ehangach. Un thema fawr gadarnhaol oedd y canfyddiad bod cleifion, o ganlyniad i bandemig COVID-19, yn cymryd mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth dros eu hiechyd eu hunain ac yn cymryd *"hunanfeddyginiaeth ar gyfer mân anhwylderau"*. I gyd-fynd â hyn, adroddodd ymatebwyr bod llai o fynychu diangen mewn lleoliadau gofal gan y cyhoedd yn gyffredinol, gan awgrymu bod y cyhoedd nawr yn *"fwy gwybodus"* ac ystyriol ynglŷn â phryd y dylent geisio cymorth iechyd a gofal.

Yn ychwanegol, amlygodd ymatebwyr y ***"cynnydd yn nibyniaeth cleifion ar eu hadnoddau eu hunain, a rhai eu teuluoedd a'u cymunedau"*** a nodwyd newid ymddygiad ar draws cymdeithas gyda ***"llai o bwyslais ar dreuliant"*** a mwy o ***"gymunedau'n gweithio gyda'i gilydd a gwirfoddoli"***, yn eu tro yn meithrin mwy o gydlyniant a gwytnwch cymunedol.

Ymhellach, dywedodd ymatebwyr fod y pandemig wedi *"uno cleifion a GIG Cymru tu ôl i achos cyffredin"* gyda chleifion/y cyhoedd a staff ar draws proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol yn dangos mwy o barch a gwerthfawrogiad o'u rolau.

Fodd bynnag, ymhlith materion llai cadarnhaol a godwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â chleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol, mae ***"effeithiau niweidiol cadw pellter cymdeithasol ac ynysu ar iechyd meddwl y cyhoedd"*** a goblygiadau posib hynny i wasanaethau iechyd a gofal ac ôl-groniadau cysylltiedig. I gyd-fynd â hynny, cadwyd pryderon yn aml hefyd mewn perthynas â phobl sâl yn peidio â cheisio cymorth iechyd a gofal amserol, gyda phryderon yn cael eu mynegi ynglŷn â'r effaith hir-dymor ar iechyd a lles cleifion.

DIWYLLIANT SEFYDLIADOL

"Mae balchder dwfn ynghlwm â gweithio i GIG Cymru, ar yr ochr nyrsio a'r ochr feddygol."

Roedd ymatebion cadarnhaol mewn perthynas â diwylliant sefydliadol yn amlygu nifer o faterion, gydag ymatebwyr mewn nifer o achosion yn dangos mwy o werthfawrogiad o staff iechyd a gofal cymdeithasol, ynghyd â mwy o bryder ac ystyriaeth i'w lles eu hunain. Caiff hyn ei adlewyrchu yn sylwadau un ymatebydd a nododd

"mae pwysigrwydd allweddol lles a pharhau i ddiogelu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol wedi ei amlygu a dylid ei ymgorffori yn systemau ansawdd y dyfodol."

I gefnogi hynny, roedd ymatebwyr yn pwysleisio ac yn gwerthfawrogi 'r cynnydd mewn ***"cyfeillgarwch", "ysbryd cymunedol"*** a rhwydweithiau cefnogi sy'n bodoli rhwng cydweithwyr. Yn ychwanegol, mae staff iechyd a gofal yn adrodd hefyd bod rôl gwirfoddolwyr ar draws y sector iechyd a gofal yn cael ei gwerthfawrogi, ynghyd â'r gwerth y maent wedi'i ychwanegu at ddarpariaeth gwasanaethau trwy gydol y pandemig.

Mae newid diwylliannol cadarnhaol pellach yr adroddodd ymatebwyr amdano yn ymwneud â bod yn fwy ystwyth a meddylfryd *"gwneud nid dweud"* a welwyd ar draws y system. Soniodd yr ymatebwyr am lefelau arwyddocaol is o fiwrocratiaeth a *"llai o drafferth gyda biwrocratiaeth"* sydd wedi cefnogi *"parodrwydd i edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio"*. Mae hyn yn cynnwys gweithio gartref , a mabwysiadu technoleg a *"mentrau sydd wedi bod yn troelli'n ôl ac ymlaen mewn adrannau TG ers oes, yn sydyn yn digwydd ledled Cymru, e.e., Attend Anywhere"*.

Nododd ymatebwyr hefyd bod *"parodrwydd i fod yn hyblyg, i addasu, ac i wneud penderfyniadau yn gyflym hyd yn oed heb wybodaeth berffaith"* ynghyd â *"phobl yn barod i gymryd risgiau"* sydd wedi hwyluso *"newid cyflymach"* dros gyfnod o wythnosau a fyddai wedi cymryd misoedd dan amgylchiadau arferol.

I'r gwrthwyneb, amlygodd ymatebion pelllach a gafwyd ddiwylliant wedi'i ganoli ar COVID-19, gyda'r rhan fwyaf o'r sylw ac adnoddau yn cael eu canolbwyntio ar hyn, gyda llawer o anghenion eraill cleifion yn cael eu hesgeuluso gan olygu y gall fod goblygiadau negyddol sylweddol o ran deilliannau iechyd cleifion.

Rhoddir enghraifft o hyn mewn ymateb sy'n awgrymu ei bod ***"yn teimlo fel petai popeth wedi dod i stop a COVID-19 ydy popeth. Dydy pethau bob dydd ddim yn parhau, ac rwy'n meddwl bod hynny'n rhoi pobl dan risg o fod yn sâl a pheidio â derbyn y driniaeth y dylen nhw fod yn ei chael"***.

At hynny, mae ymatebwyr yn mynegi pryder gwaelodol mewn perthynas â ***"beth sydd gan y dyfodol i ni"***, gan fanylu ar bryderon mewn perthynas â diffyg meddwl ymlaen a chynllunio strategaethau ymadael at y dyfodol a dychwelyd at ymarfer ***"normal"***.

"Does gyda ni ddim cynllun ar gyfer dychwelyd rhai o'r gwasanaethau i'r normal a delio â'r don enfawr o gleifion sydd wedi cael eu canslo. Dros 3,000 o apwyntiadau clinig llawfeddygol yn unig yng Nghaerdydd. Bydd disgwyl i glinigwyr jest dal ati. Fyddwn ni byth yn dala lan."

GALLUOEDD TIMAU

"Ceisio cydbwyso gweithio o gartref/ysgol gartref. Her i amldasgio pob rôl"

Nododd ymatebwyr yr effaith bositif a gawsai dulliau mwy cydlynol a chydweithredol ar alluoedd y tîm, wrth i wybodaeth a sgiliau newydd gael eu rhannu mewn amgylcheddau newydd.

Nododd yr ymatebwyr bryder ynghylch *"y dyfodol"*, gan nodi bod llawer o wasanaethau wedi oedi dros dro oherwydd COVID-19. Mae hyn wedi arwain at alw sydd yn casglu a fyddai'n her aruthrol ynddi'i hun.

Fodd bynnag, nododd yr ymatebwyr hefyd nifer o rwystrau oedd yn cael effaith negyddol ar alluoedd y tîm:

- lleihad yng nghapasiti'r tîm wrth i staff gael eu hail-leoli i ardaloedd eraill o'r system iechyd a gofal,
- staff yn gorfod gweithio o gartref ac yn methu cyflawni tasgau dyddiol rheolaidd oherwydd diffyg mynediad at adnoddau priodol
- heriau gofal plant neu ysgol gartref yn ysgogi lleihad mewn cynhyrchiant wrth weithio o gartref.

Yn ogystal, amlygodd ymatebwyr bod nifer o brosiectau wedi eu hatal am gyfnod amhenodol tra bod gwasanaethau eraill wedi eu cau'n llwyr.







Dadansoddiad o themâu yn ôl mis:
Ebrill (brif);
Mai (canol),
Mehefin (gwaelod)

PROSESAU SEFYDLIADOL

"Cyflymu rhai mentrau i wella gwasanaethau."

Roedd *prosesau sefydliadol* yn thema flaenllaw yn ymatebion y cyfranogwyr, ar draws parthau cadarnhaol a negyddol. Amlygodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o faterion neu newid yn gysylltiedig â'r modd y mae prosesau sefydliadol wedi eu cyflawni'n draddodiadol, gyda rhai eisoes wedi eu nodi yn y rhannau blaenorol o'r adran hon.

Roedd ymatebion positif yn gysylltiedig â newid prosesau sefydliadol yn cynnwys: cynnydd mewn defnydd o dechnoleg; arferion gwaith mwy hyblyg; lleihau amser cyfarfodydd; ffyrdd newydd o weithio a phrosesau cymeradwyo symlach - a arddangoswyd wrth i ymatebwyr ddisgrifio '***cyflymu rhai mentrau i wella gwasanaethau***".

Roedd ymatebwyr hefyd wedi disgrifio'n benodol sut roedd newid o ganlyniad i bandemig COVID-19 wedi ***"trawsnewid gofal trawma symudol"*** a ***"moderneiddio'r broses mynediad clinig toriadau"***. Yn ogystal, nododd yr ymatebwyr hefyd bod newid nawr yn digwydd ar raddfa sy'n sylweddol gyflymach a mwy.

Fodd bynnag, amlygwyd nifer o faterion negyddol hefyd gan ymatebwyr yr arolwg. Roedd un thema fawr a gysylltwyd gyda *Phrosesau Sefydliadol* yn ymwneud â chau gwasanaethau nad oeddynt yn rhai argyfwng a'r effaith arwyddocaol y byddai hyn yn ei gael ar ddeilliannau iechyd cleifion yn y tymor hwy. Nododd ymatebwyr bryderon ynghylch gohirio llawdriniaethau dewisol yn ogystal â chanslo clinigau cleifion dydd ynghyd a gwasanaethau eraill yn fwy cyffredinol, fel y gwelir yn yr ymateb hwn: ***"ataliad ar 'waith rheolaidd' mewn gofal sylfaenol ac eilaidd yn golygu bod cleifion yn aros hyd yn oed yn hirach nag arfer"***.

Mynegwyd pryderon hefyd gan ymatebwyr o ran a fyddai modd cynnal newidiadau positif i brosesau sefydliadol, gyda rhai'n nodi bod arferion da eisoes wedi dechrau diflannu. Mae hyn wedi ei arddangos gan un ymatebwr a ddywedodd ***"po fwyaf y byddaf yn ei weld o ddarpariaeth y gwasanaeth, wrth i staff thimau GIG Cymru ailgydio mewn cyswllt gyda mi mewn gofal sylfaenol ac eilaidd, y mwyaf mae'n teimlo fel nad oes fawr ddim wedi newid."*** Yn ogystal, nododd ymatebwyr hefyd y patrymau gwaith dwys a'r straen oedd ar staff iechyd a gofal, gydag eraill yn disgrifio effeithiau ar raddfa fawr o orweithio ymysg staff a diffyg morâl o ganlyniad.

TECHNOLEG

"Mae'r argyfwng wedi dangos mai'r gwasanaethau hynny oedd eisoes wedi cofleidio newid h.y. defnyddio technoleg, oed yn fwyaf parod i ymdopi."

Fel y gwelwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, roedd materion yn ymwneud â thechnoleg yn edefyn cyffredin trwy gydol ymatebion y cyfranogwyr, gydag ymatebwyr yn gyffredinol yn disgrifio dehongliadau positif o'r graddio i fyny a defnydd o adnoddau digidol ar draws amgylcheddau iechyd a gofal.

O safbwynt ymarferoldeb, awgrymwyd bod ***"adborth gan y rhan fwyaf o gleifion yn adrodd bod apwyntiadau rhithiol yn fwy cyfleus iddynt a'u bod yn dal i gael y cyngor sydd angen i reoli cyflyrau cronig eu hunain"***, er bod hyn yn cael ei adlewyrchu gyda phryderon ynghylch mynediad at y moddau technolegol sydd angen i ymgysylltu mewn ymgynghori ar-lein gan rai rhannau o'r boblogaeth. Fodd bynnag, mae ymatebwyr hefyd yn nodi enghreifftiau o ddefnyddio technoleg i drechu effeithiau niweidiol unigrwydd ac ynysu trwy gysylltu â chymunedau bregus.

Cafodd defnydd o blatfformau digidol fel Zoom a Microsoft Teams i hwyluso cyfarfodydd o bell dderbyniad cadarnhaol gan ymatebwyr, a adroddodd bod ***"cyfarfodydd yn llawer mwy effeithiol ac amserol, gan leihau'r angen i deithio a pharcio"***. Awgrymodd ymatebwyr hefyd bod defnyddio technoleg o'r fath wedi gwella cyfathrebu gydag adrannau a pharthau eraill yn y sector iechyd a gofal ehangach.

Fodd bynnag, nodwyd pryderon ynghylch mynediad cleifion at dechnoleg briodol er mwyn gallu ymgysylltu â gwasanaethau iechyd a gofal yn eang, gydag ymatebwyr yn amlygu allgáu digidol ac yn nodi rôl bosibl hyn o ran hybu anghydraddoldebau cymdeithasol pellach. Awgrymodd ymatebwyr hefyd bod gwasanaethau iechyd a gofal yn amharod yn dechnolegol ar gyfer y pandemig ac yn ceisio ***"dal i fyny"*** yn barhaus yn y maes hwn.



ARALL

"Mae cydbwysedd gwaith a bywyd yn llawer gwell."

Amlygodd yr ymatebwyr nifer o faterion ehangach oedd y tu allan i feini prawf y cynllun categoreiddio craidd, ac o ganlyniad wedi eu dosbarthu fel Arall gan yr ymchwilwyr. Roedd yr ymatebion positif a gasglwyd yma yn faterion a gododd yn aml o ran **manteision amgylcheddol** gweithio o gartref, **lleihau amser teithio**, argaeledd llefydd parcio wrth fynd i'r gwaith, ynghyd â mwy o amser gyda'r teulu a gwella cydbwysedd gwaith a bywyd.

Roedd yr ymatebion negyddol yn cynnwys: diffygion cynllunio a diffyg eglurder pendant gan y llywodraeth, gyda blaenoriaethau cyfredol yn ffocysu ar Brexit yn hytrach na'r pandemig; effeithiau ehangach ar yr economi a bygythiad diweithdra; **"risg cynyddol ar gyfer menywod a phlant yn wynebu trais domestig"**, yn ogystal â diffyg cefnogaeth ar gyfer y rhannau mwyaf bregus o gymdeithas, yn cynnwys y digartref a'r rhai sy'n ddibynnol ar alcohol a chyffuriau. Yn ogystal, amlygodd yr ymatebwyr heriau eraill fel "problemau FISA a thaliadau'r GIG ar gyfer gweithwyr o dramor" ac effaith barhaus y pandemig ar addysg plant.

MATERION SY'N CODI

- **Pryder ynghylch diffyg cynllunio ar gyfer y dyfodol:** mae yna gryn bryder ynghylch diffyg gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol o ran ailsefydlu gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys a phwysau o ôl-groniadau yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal.
- **Allgáu digidol ac ehangiad dilynol anghydraddoldebau iechyd:** er bod mabwysiadu a defnyddio technoleg i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal wedi ei groesawu'n gyffredinol a'i annog, ceir problemau o hyd o ran ehangiad pellach y bwlch anghydraddoldeb iechyd.
- **Mae'r cyhoedd yn ymddangos i fod yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd eu hunain:** wrth i wasanaethau iechyd a gofal gael eu hymestyn i'r eithaf a'r bygythiad o haint COVID-19 yn parhau i fod yn uchel mewn lleoliadau gofal, awgryma ymatebwyr bod y cyhoedd yn ymddangos i fod yn cymryd mwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth dros eu hiechyd a lles eu hunain, yn ogystal ag ystyried os yw defnydd o wasanaethau statudol yn hollol angenrheidiol.

Canfyddiadau – Uchafbwyntiau

ASTUDIAETH PROFIAD COMISIWN BEVAN (Cam II)

Derbyniodd Cam II yr arolwg 117 ymateb gan ddetholiad amrywiol o staff clinigol a rheoli ar draws Cymru. Roedd yr ymatebion yn trafod safbwyntiau o ddatblygiad technoleg penodol i COVID-19 hyd at barhad gwasanaeth a myfyrdod personol. Felly, mae'r arolwg yn cyflwyno dealltwriaeth o sawl cyfeiriad o ran ffaith a'r ymateb i COVID-19 ar draws y system gofal iechyd. Nodwyd nifer fechan o ymatebion (6) i fod yn feddyliau neu faterion mwy cyffredinol, heb gyfeiriad at ddatblygiadau ymarferol. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn darparu cipolwg ar ddatblygiadau yn benodol mewn ymateb i'r sefyllfa COVID-19.

Nododd dadansoddiad y comisiwn ei hun enghreifftiau o arfer da a gychwynnwyd, arferion llai effeithiol yn cael eu stopio, ac arloesi yn codi o'r cyd-destun heriol newydd. Mae'r adolygiad thematig a gyflawnwyd yn yr astudiaeth yma yn darparu archwiliad pellach o'r set data yn erbyn y naratifau ymateb. Mae hefyd yn darparu cipolwg ar y system iechyd, yn cynnwys materion sy'n codi sydd wedi eu dwyn ymlaen drwy'r astudiaethau achos – *gweler y ddogfen Atodiad.*

ADNODDAU

" . . . bod staff meddygol, nyrsio a phroffesiynau perthynol i ofal iechyd yn ased gwerthfawr . . . "

Mae ymatebwyr yn y rheng flaen ac mewn rolau cefnogaeth/corfforaethol wedi cyfeirio at argaeledd a defnydd o adnoddau. O bosibl heb fod yn annisgwyl, nodwyd argaeledd cychwynnol PPE fel her, er bod hyn yn ymestyn i adnoddau eraill fel cyfarpar swyddfa gartref priodol.

Yn ddiddorol, disgrifiwyd y safbwyntiau hyn yn aml ynghyd â datblygiad arferion i ddefnyddio adnoddau yn ddyfeisgar, a gydag ymdrechion cynyddol yn digwydd i wella argaeledd. Mae i ba raddau y rhannwyd arferion o'r fath wedi bod yn llwybr diddorol i'w ymchwilio drwy'r astudiaethau achos.

Nodwyd argaeledd platfformau fideo gweithio o bell fel Attend Anywhere yn aml fel rhywbeth sy'n darparu hyblygrwydd, parhad gwasanaeth a rhywfaint o fudd i gleifion. Fodd bynnag, nodwyd defnydd mwy helaeth o deleffoni syml fel rhywbeth effeithiol i gefnogi nifer o gleifion hefyd, ac mewn modd nad oedd yn cyflwyno rhai o'r heriau hygyrchedd a ddaw gyda phlatfformau fideo.

Yn cyd-fynd â manteision adnoddau o'r fath roedd sylwadau negyddol megis cyfyngiadau natur ymgysylltu gyda chleifion a "blinder sgrin".

Yn aml iawn ble mynegwyd themâu eraill, roedd yna argaeledd pendant o adnodd newydd i gefnogi gweithgaredd. Roedd hyn yn cynnwys meysydd ble roedd gwneud penderfyniadau wedi gwella mewn perthynas.

YMGYSYLLTU

"Ysgogiad unigol wedi eu huno gan arbenigedd sefydliadol."

Yma roedd yr ymatebion yn arddangos enghreifftiau o ymgysylltu ar draws gwasanaethau o fewn GIG Cymru ac yn allanol. Roedd y thema yn cyflwyno'n llai cryf nag mewn gweithgareddau arloesi traddodiadol, gan ymddangos yn is yn echblyg ac yn oblygedig, efallai'n adlewyrchu'r pwysau o ran amser a gwahaniad a wynebai ymatebwyr, yn ffocysu eu gweithgaredd o fewn grwpiau lleol/llai.

Dau faes nodedig o ran ymgysylltu:

- datblygu technegol;
- cefnogaeth gymdeithasol.

Enghraifft: gweithgynhyrchu PPE – enghreifftiau o gydweithrediad, oedd yn ôl eu natur yn gyffredinol ad hoc a thu allan i'r ffrydiau presennol.

Roedd rhai prosiectau eraill yn fwy uchelgeisiol yn eu cwmpas, graddfa a chymhlethdod.

- Defnyddio deallusrwydd artiffisial fel rhith gynorthwyydd;
- Datblygu technegol peiriannau anadlu.

Yn aml bydd ymdrechion o'r fath yn galw am amser ac adnoddau, er i COVID-19 yn amlwg hybu eu datblygiad.

Mae'r casgliadau cychwynnol hyn wedi ysgogi gwerthusiad pellach yn ystod cam dau drwy astudiaethau achos i ganfod enghreifftiau manwl o gyfleoedd ar gyfer cydweithredu pellach rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, yn arbennig o ran cyflwyno gwasanaethau cefnogaeth/technoleg.





Ymatebion yn ôl Amlder Themâu Echblyg a Goblygeidig.

PROSESAU SEFYDLIADOL

"Gwersi a ddysgwyd. Rhaid i ni ddal i weithio er lles cleifion a rheoli amodau yn unol â'r canllawiau i atal niwed a lleihau risg."

Roedd gallu unigolion/timau i wneud penderfyniadau er lles y cleifion/cymunedau maent yn eu gwasanaethu yn nodwedd amlwg ymysg ymatebion, yn arbennig felly o ran gwneud hynny yn gyflym i uchafu budd a lleihau risg.

Nid oedd yr enghreifftiau yn ymhlygu unrhyw ddiffyg cywirdeb na phroses, ond yn hytrach y deliwyd â nhw mewn amser real ac yn agos at y mater dan sylw.

Gyda chyswllt agos i Ddiwylliant Sefydliadol, roedd **ymddiriedaeth** yn elfen allweddol o wneud penderfyniadau a phrosesau.

Enghraifft: arweiniodd ailffurfweddu gwasanaethau i ddarpariaeth o bell gyda chydweithwyr dosbarthedig at awtonomiaeth a grymuso, yn gweithio mewn modd nad oedd y broses gyfredol yn darparu ar ei gyfer.

Fodd bynnag, fe rannodd rhai ymatebion gyfleoedd ar gyfer gwella/ehangu ymgysylltu i ddarparu proses gwneud penderfyniadau optimaidd o ran dealltwriaeth.

DIWYLLIANT SEFYDLIADOL

"Pobl sy'n gwneud gwahaniaeth, nid gweledigaethau strategol."

Roedd ymatebion wedi eu nodweddu gan **ganolbwynt cryf ar gleifion** a gwaith tîm ar lefel leol (e.e., o fewn meddygfa/clinig). Roedd nifer o enghreifftiau nid yn unig yn ffocysu ar dasgau, ond yn gweld **cefnogaeth emosiynol wedi ei ddarparu ar draws timau**, yn arbennig ymysg staff rheng flaen.

Nodwyd bod ynysu yn fater allweddol, gyda gweithio o bell wedi ei ddisgrifio fel rhywbeth sy'n fanteisiol ac anfanteisiol. Enghraifft o hyn yw'r potensial i sicrhau cydbwysedd o'r newydd yn y dynamig bywyd a gwaith, ble mae gweithio o gartref yn pylu'r gwahaniad ac yn caniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd.

Roedd yna sylwadau pendant ynghylch esblygu diwylliant sefydliadol, gyda **galluogi arweinyddiaeth drugarog** yn rhywbeth i'w ddathlu mewn naratifau oedd yn ffocysu ar faterion eraill.

GALLUOEDD TIMAU

"Roedd hyn yn gyfuniad o arweinyddiaeth dda; y bobl gywir mewn tîm; ymddiriedaeth a dealltwriaeth; lwc."

Yn aml wedi ei alinio â *Diwylliant Sefydliadol*, roedd nifer o ddatblygiadau yn ddibynnol ar *alluoedd cynhenid timau a'u haelodau*. Roedd hyn yn ymwneud nid yn unig ag agweddau clinigol amlwg, ond hefyd y ***gallu i aildrefnu ac ailffurfweddu*** mewn ymateb i gyd-destunau unigol.

Roedd ymatebion hefyd yn rhoi pwyslais ar ***ddysgu*** a ***rhannu gwybodaeth*** ar draws timau, gan adlewyrchu'r datblygiadau positif o ddefnyddio *Diwylliant Sefydliadol*.

MATERION A GODODD

Yn aml roedd sylwadau negyddol yn ymwneud â chyfyngiadau *Adnoddau* neu *Brosesau Sefydliadol* yn atal manteisio ar alluoedd.

Enghraifft: Anallu i gael mynediad at raglenni TG a ddefnyddir yn helaeth a fyddai wedi hwyluso cydweithredu.

ARALL

"Mae'r hyblygrwydd i weithio o gartref wedi arwain at gynyddu creadigrwydd a chynhyrchiant. Mae hefyd wedi gwella fy llesiant yn gyffredinol."

Roedd llesiant personol a **gwytnwch** yn agwedd bwysig ymysg ymatebion. Roedd hyn yn ymwneud ag **ynysu, llwyth gwaith** a **materion iechyd**.

Adlewyrchodd **materion** eraill a godwyd y **safbwynt ble mae'r claf yn ganolog** a fynegwyd yn y *Diwylliant Sefydliadol*

- Canolbwyntiodd nifer o ymatebwyr ar hygyrchedd gwasanaethau/platfformau.
- Cyfathrebodd rhai grwpiau (e.e. pobl hŷn) anhawster wrth ddefnyddio offer digidol, ond cyfathrebodd nifer hefyd eu bod yn gallu eu defnyddio.

MATERION SY'N CODI

- **Perygl colli gwelliannau mewn arferion 'wrth i bethau ddychwelyd i'r drefn arferol'**: er bod y pandemig wedi creu trasiedi a chaledi enfawr, roedd rhai o'r gwelliannau i arferion wedi eu gwerthfawrogi'n fawr iawn.
- **Iechyd meddwl a lles cyffredinol staff a chleifion**: roedd yr ymatebion yn cyfleu cyfeillach gref ac ymroddiad i les cleifion. Yn cyd-fynd â'r teimlad hwn oedd pryder mawr o ran yr effaith uniongyrchol a hirdymor a'r heriau y byddai'r pandemig yn cyflwyno.
- **Arweinyddiaeth Unigol a Chyfunol:** mae diffinio'r ymateb i heriau wedi gofyn i dimau gydlynu a diffinio eu cyfeiriad eu hunain, gan gymryd cyfrifoldeb gydag awtonomiaeth ac atebolrwydd.

Canfyddiadau – Uchafbwyntiau

ASTUDIAETH NEWID GWASANAETH GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL PERTHYNOL

Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (AHPau) wedi gweithio mewn modd ble mae'r person yn ganolog erioed. Maent yn ceisio canfod y ffordd fwyaf effeithiol i uchafu gwellhad a datblygiad fel y gall pobl fyw'r bywyd maent eisiau mor annibynnol â phosibl. Ychwanegodd y pandemig COVID-19 heriau arwyddocaol i'r ffordd yna o weithio. Ar draws Cymru, ceisiodd pob unigolyn ym mhob gwasanaeth ganfod dulliau arloesol o weithio gyda phobl a helpu eu cadw'n iach, yn dda ac yn egnïol. Fe geisiont ffyrdd newydd o weithio a fyddai'n helpu darparu cymaint o ofal â phosibl mewn modd rhagweithiol o fewn cymunedau pobl; yn defnyddio technoleg a mynediad ar-lein ble bynnag fo'n bosibl i gadw staff, cleifion a'u teuluoedd yn ddiogel. Roeddynt yn canolbwyntio ar helpu pobl i aros allan o'r ysbyty; yn hwyluso eu rhyddhau ble bynnag fo'n bosibl; yn creu dulliau i alluogi pobl i helpu eu hunain i osgoi argyfyngau iechyd; ac yn parhau gyda therapïau oedd angen i uchafu datblygiad ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae'r adran hon yn dadansoddi'r set data a ddarparwyd i ni gyda'r bwriad o ddechrau datblygu archwiliad o'r arloesi a thrawsnewidiadau a gyflawnwyd gan AHPau ar draws Cymru, mewn iechyd a gofal cymdeithasol; gofal iechyd corfforol a meddyliol; ac mewn cymunedau, ysgolion a chartrefi gofal, i sicrhau y gallwn werthuso a dysgu o'r gwaith yma ar gyfer gwelliant parhaus gwasanaethau AHP wedi i'r pandemig ddod i ben.

Roedd y set data yn cynnwys 180 cofnod, yn amlinellu newidiadau gwasanaeth ar gyfer AHPau ar draws y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n cwmpasu sbectrwm eang o AHPau, yn cynnwys therapi galwedigaethol, gwasanaethau adsefydlu cymunedol, ffisiotherapi, seicoleg, dieteg a mwy, gyda staff yn cael eu defnyddio'n greadigol. Mae'r cofnodion yn cyfeirio'n benodol iawn at y meysydd newid a dargedwyd, ac os byddent yn cyfeirio at fodelau staffio gofal; arloeseddau newydd; defnydd o'r gweithlu, ymysg eraill. Yn gyffredinol fe ddarperir y rhesymeg dros y newidiadau a gyflwynwyd, fel y mae'r risgiau posibl, os y'i nodwyd. Ble fo'n bosibl, mae yna ymgais i nodi'r gwersi a ddysgwyd ac argymhellion. Mae ymatebion ac arloesi cynnar buan yn amlwg iawn yn ôl dyddiadau'r gweithredoedd yn y set data.

Ychwanegwyd at y data o'r arolwg trwy ddadansoddiad astudiaeth achos i ddilysu deilliannau a chadw'r trawsnewidiadau mwyaf effeithiol ar gyfer y dyfodol (*gweler y ddogfen Atodiad i'r adroddiad hwn i weld yr astudiaethau achos a werthuswyd*).

ADNODDAU

Mae natur ddeinamig ac ymatebol timau AHP yn amlwg, felly hefyd eu dyfeisgarwch.

Fe nodom bwyslais ar nodi risgiau i les a phrofiad cleifion (gofid, gofal anghenion arbennig ac ati).

Darparodd AHPau adnoddau yn ogystal â chreu detholiad amrywiol o adnoddau newydd, megis:

- ŷcefnogaeth ddigidol wyneb yn wyneb
- ŷcefnogaeth rheng flaen

ar gyfer:

- ŷdefnydd gan gydweithwyr AHP eraill, ac
- ŷfel adnodd ar gyfer cleifion ysbytai, cydweithwyr ac ati.

Roedd adnoddau hefyd yn galluogi addasiad cyflym i:

- ŷgefnogi staff nyrsio/gofal;
- ŷddatblygu a chefnogi ysbytai maes;
- ŷddatblygu rolau newydd (e.e., Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW) mewn lleoliadau ysbytai maes).

NEWID ac EFFAITH

Cychwynnwyd ar newid mewn ymateb i gyfyngiadau neu ddiffygion adnoddau oedd ar gael i gyflawni gwasanaethau. Mae staff AHP a grwpiau proffesiynol wedi ymateb yn gyflym iawn i:

- leoli unedau symudol;
- ail-leoli staff o wasanaethau cleifion dydd a ganslwyd i feysydd ble roedd yr angen yn fwy;
- greu adnoddau newydd (e.e., grwpiau therapi lleferydd ac iaith yn darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth sylfaenol iaith lleferydd i gydweithwyr AHP mewn wardiau pediatrig; newid y model gofal i gefnogi oedolion awtistig yn rhithiol; pecynnau gwybodaeth wedi eu teilwra) er mwyn gwella arferion.

Mae'r rhain wedi galluogi newid ar fyrder i wasanaethau ac, yn allweddol, weithrediad llyfn lleoliadau gofal iechyd.

MATERION A GODODD

Codwyd gwahanol gyfyngiadau adnoddau cyfredol, yn arbennig felly nifer staff, fel risgiau posibl yn atal gweithrediad effeithiol newidiadau. Mae hyn yn rhywbeth i'w ystyried o ran cynllunio adnoddau'n strategol i alluogi newid parhaus.

Cyfyngiadau adnoddau ar gyfer offer a systemau newydd, ac ar gyfer swyddi arbenigol.

YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU

"Ewch â'ch staff gyda chi ar y daith, waeth pa mor anodd yw hynny, ac esbonio pam eich bod wedi gwneud y penderfyniadau a wnaethoch."

Chwaraeodd cyfathrebu rôl allweddol ar y cychwyn. Roedd staff AHP yn dangos cyfathrebu ac ymgysylltu rhagweithiol ac effeithiol i gynnig cefnogaeth:

- ar y ward (e.e., cefnogi nyrsys);
- mewn unedau gofal dwys (e.e., hyb gyfathrebu wedi ei harwain gan grŷp gweithwyr seicoleg);
- trwy ddarparu adnoddau i gynnal ymgysylltu gyda chleientiaid uned dydd oedd wedi eu hynysu;
- trwy ddarparu sicrwydd i staff oedd wedi eu hail-leoli, yn ffocysu ar eu llesiant emosiynol a diogelwch swyddi.

NEWID ac EFFAITH

Llwyddodd AHPau i reoli gwrthwynebiad i newidiadau mewn lleoliadau fel therapi cleifion o bell trwy ymgysylltu gofalus, cynyddu derbyniad a lleihau rhwystrau i newid - ac felly'n galluogi newidiadau i ddigwydd yn effeithiol.

Galluogwyd ***"gweithio o fewn terfynau llai pendant"*** (yn gysylltiedig â'r thema *Prosesau Sefydliadol*) trwy reolaeth a chyfathrebu effeithiol.

Cyflawnwyd gwelliannau mewn prosesau trwy ymgysylltu ystyrlon gan staff AHP yn y camau cynllunio ac ail-leoli.

MATERION A GODODD

Codwyd pryderon ynghylch y risg nad yw adnoddau a gynhyrchwyd i gynnal ymgysylltiad ar gyfer dibenion penodol â'r cyrhaeddiad angenrheidiol i ddenu staff.



PROSESAU SEFYDLIADOL

Cafwyd tystiolaeth o ddatblygu gweithlu **ystwyth** (e.e. Adnodd clinig podiatreg wedi'i ailgyfeirio i ddelio â charfan hyfywedd meinwe fasgwlaidd oedd yn cyflwyno gydag achosion brys o risg o glwyf neu haint).

NEWID ac EFFAITH

Ceir ymdrechion ac enghreifftiau o newid ymarfer er mwyn gwneud y gorau o lwybrau a lleihau defnydd o'r gweithlu mewn rhai gweithgareddau (**Enghraifft**: dull gofal iechyd darbodus i leihau asesiadau ac ymweliadau cychwynnol gan gleifion er mwyn lleihau'r risg o heintiau), gyda ffocws holistig er mwyn deall rhwystrau ac atalwyr i'r ymarfer wedi'i newid, a'i:

- effeithiau ar gleifion. (e.e., effeithiolrwydd therapi ar-lein fel ateb hir-dymor);
- effeithiau ar aelodau staff (e.e., adleoli staff therapi galwedigaethol/ffisiotherapi gofal sylfaenol i ofal diwedd bywyd yn cyflwyno ffynonellau trallod posib i'r staff dan sylw).

Cynrychiolir tystiolaeth bellach sy'n cefnogi thema *Prosesau Sefydliadol* gan reolaeth ofalus ar argaeledd gwasanaethau trwy leoli staff yn ddeinamig i wrthbwyso ymyriadau posib o ganlyniad i'r pandemig.

MATERION A GODODD

Pryderon ynglŷn â'r angen i ystyried y setiau sgiliau sydd ynghlwm ag achosion cymhleth cleifion yn erbyn y cyfle i aelodau staff ennill gwybodaeth am rychwant ehangach o achosion cleifion. Mae hyn yn codi pwyntiau diddorol ynglŷn â'r angen posib i gael methodolegau hyfforddi newydd a gwell ar gyfer y proffesiwn.

DIWYLLIANT

Mae'n ymddangos bod thema *Diwylliant* yn llai gweladwy na'r lleill. Mae hynny i'w ddisgwyl i ryw raddau, o ystyried natur y set ddata. Fodd bynnag, mae gwybodaeth ddiddorol yn y data ynglŷn â goblygiadau newidiadau i brosesau i newidiadau diwylliannol hir-dymor.

Mae un achos nodedig yn ymwneud â rhoi therapydd ar waith mewn amgylchedd uned gofal dwys, a'r goblygiadau hir-dymor i dimau unedau gofal dwys.

Mae rhai o'r ymatebion yn ymwneud â gweithio o bell, a goblygiadau hir-dymor hynny i ddiwylliant y sefydliad. Mae'r defnydd o gyfarfodydd rhithiol yn cael ei bwyso yn erbyn risg o unigedd staff a dirywiad iechyd meddwl.

CANFYDDIAD Y CYHOEDD

Yn ein data, mae'r thema hon yn aml yn oblygedig, sydd i'w ddisgwyl o ystyried mai ymhellach i lawr y lôn y bydd llawer o'r newidiadau sydd wedi'u cyflwyno yn cael effaith ar daith y claf.

EFFAITH

Wrth gyflwyno technoleg neu broses newydd, mae staff proffesiynau perthynol i iechyd yn gyffredinol yn dangos lefel ddofn o ofal wrth ystyried yr effaith y gallai'r newid ei chael ar:

- berthnasoedd therapiwtig;
- lles cleifion, yn arbennig ar gyfer cleifion sy'n fwy agored i niwed megis y rhai sydd ag anableddau dysgu.

Gellir gwerthuso ystyriaethau o'r fath ymhellach yng ngoleuni cynllunio gwelliant newydd i wasanaeth a'i ymgorffori yn y broses gynllunio ei hun, er mwyn manteisio ar y cyflwr hylifol a newidiol y mae staff GIG Cymru yn ei brofi ar hyn o bryd.

NEWID

Gallai gwasanaethau newydd ddeillio o'r gwerthusiad uchod, i'w rhoi ar waith yn y tymor hirach.



TÎM A GWYBODAETH

Cysylltir trwy oblygiad yn aml â thema echblyg *Adnoddau*.

- Ymdrechion sylweddol ymhlith gweithlu staff AHP i ddatblygu eu setiau sgiliau a darparu mewnbwn gwybodaeth ac adnoddau i'r tîm.
- Pwyslais cryf ar sgiliau, gweld gwerth hyfforddiant proffesiynol, gweithio â ffiniau aneglur, a datblygiad gweithlu parod i addasu.
- Rhannu gwybodaeth trwy hyfforddiant a ddarperir rhwng timau.

Enghraifft: cafodd arbenigwyr ar ddysffagia o therapi iaith a lleferydd hyfforddiant gan ddeietegwyr ar atchwanegiadau maethol wedi'u haddasu fel triniaeth gyntaf, ac fe ddarparon nhw hyfforddiant sylfaenol ar dysffagia ac ymwybyddiaeth i'r holl AHPau eraill.

NEWID ac EFFAITH

Parodrwydd i ddatblygu agenda trosglwyddo sgiliau, gan unigolion, timau ac anghenion rheolwyr i ddatrys materion brys, ond hefyd i fynd ati'n rhagweithiol i atal problemau rhag codi.

Pwyslais ar sicrhau y cynhelir y lefelau ansawdd priodol trwy gydol proses o adnabod argaeledd galluoedd o fewn y tîm "esblygedig" a roir ar waith.

AWGRYM

Ystyried ymchwil pellach ar:

- agenda uwchsgilio ehangach AHPau ac aml-/rhyng-ddisgyblaetholdeb;
- sicrhau ansawdd mewn perthynas ag e.e., lleihau cyfraddau gwallau ar gyfer proffil ehangach wedi'i uwchsgilio a roir ar waith yn y maes;
- sgiliau, gwerthuso sgiliau (Enghraifft: gwerthuso'r sgiliau resbiradol sydd ar drai mewn byrddau iechyd), dad-sgilio ac adleoli, cynefino a hyfforddiant.

TECHNOLEG

Persbectif: Roedd y rhan fwyaf o grwpiau a gynrychiolir yn y data yn dangos datblygiad neu ddefnydd o dechnoleg a datrysiadau'n seiliedig ar/wedi'u galluogi gan dechnoleg:

- y newidiadau a weithredwyd
- rôl technoleg yn galluogi newid o'r fath a dulliau newydd o ymdrin ag asesiadau, diagnosteg a thriniaeth cleifion
- arloesi a chreadigrwydd i oresgyn cyfyngiadau a rhwystrau
- Astudiaethau ymchwil a datblygu yn parhau

NEWID ac EFFAITH

- Rhoi nifer o agweddau arloesol ar waith yn gyflym, gyda gweithgaredd ac egni arwyddocaol ac effaith ar ddarpariaeth gofal iechyd.
- Defnydd hollbresennol o adnoddau ar-lein i gynnal tasgau megis ymweliadau meddyg-claf.
- Mae aelodau staff hefyd wedi datblygu datrysiadau trwy dechnoleg – gwefannau, fideos hunan-gymorth – gyda thystiolaeth bod angen creu dull mwy cynhwysfawr o sicrhau ymgysylltiad cleifion ac aelodau staff.

MATERION A GODODD

Mae angen goresgyn rhwystrau o ran hygyrchedd, gweithredu, a mabwysiadau'n gyffredinol ar gyfer adnoddau ar-lein posib, gan aelodau staff a chleifion.

ARALL

Roedd pwyslais cryf ar sgiliau i'w weld yn y set ddata, ynghyd â thystiolaeth o gydnabyddiaeth echblyg o werth hyfforddiant traws-broffesiwn, gweithio a ffiniau aneglur a rhoi gweithlu sy'n gallu addasu ar waith, er wy sicrhau gwell gwytnwch.

Mae dulliau gweithio sy'n anelu at uwchsgilio AHPau yn ehangach yn ddeinameg ddiddorol i'w hymchwilio, yn arbennig o'u cyfuno a disgyblaethau eraill.

Gall fod materion sicrhau ansawdd sydd angen ystyriaeth ac ymchwil pellach (e.e., lleihau cyfraddau gwallau ar gyfer proffil ehangach wedi'i uwchsgilio a roir ar waith yn y maes). Mae'r agenda sgiliau yn cwmpasu adleoli staff a ystyriwyd mewn adrannau blaenorol, gyda hyfforddiant a phroses gynefino gadarn yno fel modd o liniaru camgymeriadau posib ac i sicrhau ansawdd y broses uwchsgilio.

Cyfeirir at gyfyngiadau adnoddau mewn perthynas â chyllidebu ar gyfer offer a systemau i dderbyn hyfforddiant arnynt, neu ar gyfer swyddi arbenigol i ddarparu mewnbwn arbenigol ac uwchsgilio.

Dylai astudiaethau pellach a dadansoddiadau o'r manteision o'u cymharu â chostau ddatgelu cyfleoedd pellach a galluogi blaenoriaethu cyd-destunau gwerthfawr, mewn cyfuniad â fframweithiau i gefnogi adleoli ar draws rolau AHP. Mae potensial i ymchwilio i'r agenda sgiliau mewn rolau AHP yn fanylach trwy astudiaethau penodol.





Ymatebion yn ôl Amlder:
- Brig: Themâu Echblyg (Gwyrdd) a Goblygedig (Glas);
- Gwaelod: Ymatebion wedi'u cyfuno ar gyfer themâu Echblyg a Goblygedig.

MATERION SY'N CODI

- **Tystiolaeth o gyflawni gwelliannau i brosesau**trwy ymgysylltiad ystyrlon gan AHPau yn y camau cynllunio a gweithredu.
- Pwysigrwydd cael **"gweithio â ffiniau aneglur"** a **"meddylfryd twf/dysgu".**
- Mae awdit sgiliau yn bwysig er mwyn canfod cyfleoedd ar gyfer synergedd ac addasu'n ddiogel ac yn gyflym mewn argyfwng.
- Mae ystyriaeth o **faterion iechyd meddwl a gofalu am les meddyliol cydweithwyr AHP** yn awgrymu bod angen ystyried materion o'r fath yn y cam o gynllunio'r gwasanaeth/ymarfer**.**
- Byddai cynllunio prosesau yn GIG Cymru yn gwella trwy ymgysylltu'n fwy trylwyr ag arbenigedd AHPau.

Canfyddiadau – Uchafbwyntiau

ASTUDIAETH NEWID GWASANAETH GWYDDOR GOFAL IECHYD ac ASTUDIAETH AROLWG ARLOESI COVID-19

Mae staff gwyddor gofal iechyd (GGI) yn cyflawni amrywiaeth o dasgau allweddol sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, ac yn chwarae rhan fawr yn darparu gwasanaethau iechyd ym meysydd diagnosteg, therapiwteg ac adsefydlu. Maen nhw'n defnyddio eu harbenigedd i helpu i achub bywydau ac i wella gofal cleifion, ac yn aml maent ar flaen y gad gyda datblygiadau technolegol ac arloesi.

Mae'r gweithlu GGI wedi bod yn rhan annatod o ymateb GIG Cymru ac iechyd y cyhoedd i COVID-19. Er enghraifft, chwaraeodd staff GGI rôl allweddol yn cefnogi datblygiad ac yn ehangu capasiti profi COVID-19, ar gyfer profi am y feirws, ac am wrthgyrff. Yn y cyfamser, bu peirianwyr clinigol yn hanfodol i'r gwaith o ddosbarthu casgliad enfawr o gyfarpar gofal critigol, gan sicrhau ei fod yn addas at y diben a chyfrannu at hyfforddiant i staff clinigol ar y cyfarpar newydd hwn. Mae radiograffwyr wedi bod yn rhan o'r ymateb rheng flaen, gan sicrhau diagnosis cywir a chynnar i gleifion yn y lleoliad gofal, tra bo ffisegwyr wedi addasu gweithdrefnau diagnostig a therapiwtig hir-dymor er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu parhau i gyrchu gwasanaethau hanfodol yn y ffordd fwyaf diogel a hwylus posib.

Wrth ymateb i'r sefyllfa o argyfwng, mae staff GGI yn GIG Cymru o ddisgyblaethau amrywiol wedi cofleidio heriau newydd, ac wedi dod yn arloeswyr rhagorol trwy fabwysiadu technolegau newydd a'u rhoi ar waith yn gyflym. Wrth ystyried darpariaeth gofal, mae llawer ohonynt wedi mabwysiadau dulliau newydd ac arloesol o weithio, a hynny'n aml mewn amgylcheddau gwahanol a heriol iawn. Mewn nifer o leoliadau gofal iechyd - o safleoedd ysbyty acíwt i ganolfannau profi – mae'r gweithlu GGI wedi defnyddio'i set sgiliau gwyddonol a thechnolegol unigryw i roi'r gefnogaeth orau posib i GIG Cymru a'r cyhoedd yn ystod y pandemig.

Mae'r bennod hon yn ystyried yr arloeseddau a'r trawsnewidiadau a gyflawnwyd gan broffesiwn GGI ledled Cymru, a bydd yn sicrhau ein bod yn dysgu o'r gwaith hwn er mwyn parhau i wella gwasanaethau diagnosteg a gwyddonol, ac i ddarparu gwell deilliannau i gleifion. Mae data wedi'i gasglu mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn sicrhau y gellir dilysu'r deilliannau ac y caiff y trawsnewidiadau mwyaf effeithiol eu cadw at y dyfodol.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r canfyddiadau o'r arolwg ansoddol a gynhaliwyd, sydd wedi nodi nifer o bwyntiau allweddol i'w hymchwilio ymhellach. Strwythurwyd yr arolwg i roi rhan ansoddol a rhan feintiol (ie/na) iddo. Yn y rhan ansoddol, gofynnwyd naw cwestiwn er mwyn gallu treiddio i'r arloesedd a'r ymarfer newydd yr oeddent wedi'i arsylwi neu gymryd rhan ynddo, ei effaith ac unrhyw risgiau neu wersi a ddysgwyd. Canolbwyntiodd yr arolwg yn benodol wedyn ar unrhyw arloesi digidol a oedd wedi'i gyflwyno mewn meysydd gwaith GGI, ei effaith, rhwystrau, a rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gweithlu GGI wedi dangos arweiniad eithriadol dros y 15 mis nesaf, ac mae'n hanfodol nawr eu bod yn pwyso a mesur ac yn datblygu ar sail y cryfderau hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod staff GGI yn parhau i weithredu fel catalydd i greadigrwydd, arloesi a chydweithio, a bydd yn cynorthwyo ein gallu i drawsnewid gwasanaethau, gan ***ddod ag yfory i chi heddiw***.

ADNODDAU

Persbectif: mae thema *Adnoddau* yn gwyro'n sylweddol tuag at deimladau negyddol yn nata'r arolwg.

- Diffyg adnoddau
- Ansicrwydd o ran cyllido hir-dymor (i fentrau a'r gweithlu)
- Mynediad at adnoddau (gan aelodau staff a'r cyhoedd)
- Yr angen i sicrhau bod offer yn addas at y dyfodol, ac am bolisïau i alluogi gweithio o bell

Mae'r rhain wedi'u nodi fel pynciau sensitif.

CYDWEITHIO

Mae parodrwydd a dadl dros gael mwy o gydweithio a phartneriaethau. Fodd bynnag, ceir cipolwg hefyd ar raniad llafur clir pan ddaw'n fater o gydweithio, sy'n golygu, er enghraifft, y byddai tîm peirianneg GGI yn canolbwyntio ar wyddor glinigol tra byddai academyddion/staff busnes yn canolbwyntio ar gyfyngiadau dylunio a phrototeipio.

Mae hwn yn ganfyddiad diddorol oherwydd y gallai fod wedi'i liwio gan ofnau cuddiedig ynglŷn â chael eich disodli, fel y mae ymatebwyr eraill wedi dangos.

AGWEDD RAGWEITHIOL

Mae aelodau staff GGI wedi dangos agwedd ragweithiol wrth ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol yn ystod pandemig COVID-19, heb ystyriaeth i unrhyw oblygiadau niweidiol i forâl a lles staff. Mae hynny wedi digwydd er gwaethaf diffyg adnoddau a chyfarpar, yn ogystal â lefelau staffio sy'n rhy isel, sy'n ffactorau yr oedd ymatebwyr yn gweld y gallent gael effaith negyddol ar les cleifion.

Mae'r sefyllfa fel petai wedi'i darlunio'n eithaf eglur ac mae'n awgrymu'r angen am weithgaredd ymchwil manwl pellach.

CANFYDDIAD Y CYHOEDD

Nid yw *Canfyddiad y cyhoedd* yn thema amlwg iawn yn ein data. Yn gyffredinol, mae ymatebion yn dangos bod y gweithlu GGI yn ymwybodol o'r canfyddiad y gallai rhai gweithgareddau sydd wedi'u newid (e.e., brysbennu o bell) beri i'r cyhoedd ddatblygu teimladau negyddol neu gymysg, oni bai bod adnoddau a pholisïau sydd wedi'u diogelu at y dyfodol gyda nhw.

EFFAITH

Teimlir bod gwasanaethau i gleifion a newidiwyd yn cael effeithiau a allai fod yn negyddol. Fodd bynnag, mae'r teimlad hwn yn amrywio ar gyfer grwpiau GGI gwahanol, gan ei fod yn ddibynnol ar y gweithgareddau a gyflawnwyd, a sut y mae COVID-19 wedi tarfu arnynt.

Mewn rhai achosion, y prosesau a fabwysiadwyd sydd wedi achosi sgîl-effeithiau o ran effeithiolrwydd y tîm, a allai drosglwyddo wedyn i roi profiad nad yw cystal i'r claf.

MATERION A GODODD

- Nid yw ymyriadau allai fod yn addawol, ond sydd wedi'u cyfyngu gan lywodraethiant ar hyn o bryd, yn gallu helpu cleifion nawr ac mae hynny'n peri i'w canfyddiad o'r gofal a dderbyniant ddirywio.
- Gall fod canfyddiad gan y cyhoedd hefyd bod diffyg rhyngweithio wyneb-yn-wyneb yn golygu lefel is o ofal.

Gallai deall sut i osgoi materion o'r fath helpu i gynllunio prosesau gwell.

YMGYSYLLTU A CHYFATHREBU

"Unwaith y rhoesom wybod ein bod ni ar gael i'n defnyddio, doedd dim pall ar yr ymholiadau'n gofyn am help."

Mae pwysigrwydd *Ymgysylltu a Chyfathrebu* yn cael ei amlygu yn yr ymatebion, mewn termau cadarnhaol yn bennaf, ond gyda rhai negyddol hefyd.

Mae **ENGHREIFFTIAU** yn dangos grym cyfathrebu mewnol ac ymgysylltu allanol gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae wedi helpu i yrru arloeseddau yn eu blaen i ddwyn ffrwyth a datblygu timau rhagoriaeth proffesiynol sy'n cael eu hysgogi gan wybodaeth ac sy'n gallu harneisio gwyddoniaeth a thechnoleg er budd y boblogaeth ehangach.

EFFAITH

Sefydlwyd cyfryngau partneriaeth cyhoeddus-preifat arloesol i alluogi dyfeisiau meddygol megis CPAP i gael eu cynhyrchu ac i roi cyngor ar PPE. Ni fyddai hyn wedi digwydd heb ymgysylltu a chyfathrebu rhagweithiol ar draws pob lefel.

Dangosodd staff GGI y gallu i weithio'n llwyddiannus dan bwysau ac i ddarparu datrysiadau arloesol, gyda chymorth cydlynu cryf. Ceir tystiolaeth hefyd o farchnata timau'n llwyddiannus, gan esgor ar gyfleoedd pellach i gynnal, er enghraifft, gwaith ar ddyfeisiau meddygol wedi'u teilwra, yn ogystal â **gallu i addasu setiau sgiliau cyfathrebu o un maes (clinigol) i un arall (cyhoeddus)**.

Mae **MEYSYDD I'W GWELLA** o ran cyfathrebu a gweithio amlddisgyblaethol wedi'u nodi, ac fe anogir rhagor o gydweithio gydag academia.

PROSESAU SEFYDLIADOL

Nodwyd thema *Prosesau Sefydliadol* yn bennaf mewn modd cadarnhaol echblyg, er yn oblygiadol.

Mae cydberthynas agos rhwng darparu adnoddau ar gyfer (neu dechnoleg yn galluogi) y broses a'r broses ei hun, gan fod nifer o ymatebwyr GGI wedi dangos bod creu adnodd newydd wedi galluogi newid mewn un neu fwy o brosesau sefydliadol:

Enghraifft: mae ailgynllunio hyfforddiant i ddefnyddwyr yn cynyddu allbwn hyfforddiant a thrwy hynny, mae'n optimeiddio'r broses;

Enghraifft: Roedd defnyddio adnoddau digidol wedi galluogi gweithio o bell, a oedd wedi gwella cynhyrchiant mewn timau amrywiol (gan gynnwys hyfforddiant o bell i aelodau staff a hyd yn oed rhaglennu mewnblaniadau clyw o bell).

EFFAITH

Mae potensial gan brosesau o'r fath i drosi'n newidiadau hir-dymor yn niwylliant y sefydliad, fel yr amlinellwyd hefyd mewn setiau data eraill.

Gallai datblygu timau newydd arwain hefyd at gael prosesau sefydliadol newydd yn y tymor hir ac mae angen ymchwilio ymhellach i hyn.

Enghraifft: cofleidio'r holl broses o ddylunio a datblygu dyfais feddygol o'r dechrau i'r diwedd gan ddefnyddio sgiliau a thalent mewnol.

Enghraifft: peilotwyd lleihad yn nifer y triniaethau [radiotherapi ar diwmor] yn ystod COVID-19 ac mae'r newidiadau eisoes yn dod yn barhaol ar lefel genedlaethol, gan gyflymu'r gwasanaeth.

MATERION A GODODD ac AWGRYMIADAU

- Soniodd un ymateb (a gyfeiriai at broses plasma gwaed ymadferol sydd wedi'i dirwyn i ben ers hynny) am yr angen i ystyried y sylfaen strategol sy'n sail i gynllunio GIG Cymru. Cyfeiriodd hefyd at yr angen i gael systemau cadarn yn eu lle i gofnodi ymarfer a'r ffordd y mae'n cysylltu o fewn y corff meddygol a gwyddonol ehangach.
- Gallai defnyddio technoleg ddigidol arwain at gynnydd mewn anghyfartaledd oherwydd anawsterau gyda mynediad at dechnoleg ac offer/gwasanaethau, yn ogystal ag amgylchiadau personol (i weithwyr sy'n byw ar eu pennau eu hunain, y swyddfa yn aml yw'r unig le ble mae modd cymdeithasu). Er bod derbyniad da iddo ar y cyfan gan gleifion.

DIWYLLIANT

"O gael y rhyddid i ymarfer, mae modd i arloesi ddigwydd yn gyflym ac yn effeithiol."

"Mae'r pandemig wedi creu tirwedd ble mae arloesi wedi gallu ffynnu."

Nid yw thema *Diwylliant* i'w gweld yn amlwg ar ffurf echblyg yn y set ddata hon. Yn oblygiadol fodd bynnag, cawsom ambell gip ar deimladau'r ymatebwyr mewn perthynas â diwylliant sefydliadol.

O fewn y data, daethom o hyd i sylweddoliad ymhlith ymatebwyr bod proses gwneud penderfyniadau amlddisgyblaethol, gyflym ar lefel fwy lleol (ynghyd â chyllid) ac ymgysylltiad staff ar bob cam – ac yn enwedig ar adegau o angen – wedi dangos bod GIG Cymru yn alluog i ddiwallu anghenion y boblogaeth, gyda phenderfyniadau cyflymach, anfiwrocrataidd o ansawdd uchel sy'n gallu gwrthsefyll craffu gan lywodraethwyr.

Yn ein data, mewnbwn clinigol uniongyrchol i broses gwneud penderfyniadau cyflym sy'n cael y clod am y newid hwn. Dylid ystyried hyn ymhellach ac fe ddygwyd y thema hon ymlaen ymhellach i'n hymchwil astudiaethau achos *gweler y ddogfen sy'n Atodiad i'r adroddiad hwn i gael gweld yr astudiaethau achos a werthuswyd*).

Ceir trafod amlwg am weithio o bell, a chyfeirir yn oblygiadol at yr angen i gael newid yn y drefniadaeth sefydliadol draddodiadol.



Ymatebion yn ôl Amlder o themâu echblyg a goblygiadol wedi'u cyfuno, ar gyfer Themâu CADARNHAOL (Glas) a NEGYDDOL (Oren).

TÎM A GWYBODAETH

Ceir rhaniad gweddol gyfartal rhwng cofnodion cadarnhaol a rhai negyddol yn y thema hon, gyda rhywfaint yn fwy o deimlad cadarnhaol.

- Roedd gwaith amlddisgyblaethol yn gysyniad a gefnogwyd yn gryf gan ei fod wedi'i ymgorffori yn null GGI o weithio. Addasodd timau yn gyflym iawn i'r amgylchiadau newydd ac roeddent ar waith yn gyflyn (ac eithrio unrhyw achoswyr straen allanol neu faterion fel offer cydweithio).
- Ceir:
  - ymwybyddiaeth o'r sylfaen wybodaeth sylweddol a darpariaeth o fewn timau;
  - synnwyr o falchder o fod yn rhan o dimau â sgiliau o'r fath;
  - ymwybyddiaeth o'r problemau mewn perthynas â chyllidebau a sicrwydd tymor hir, sy'n llesteirio gwytnwch y gydweithfa.

AWGRYMIADAU:

- Edrych ar y prosesau rheoli gwybodaeth sy'n sail i waith tîm er mwyn sicrhau bod y wybodaeth honno'n cael ei meithrin yn hytrach na'i cholli.
- Byddai adnoddau digidol newydd (yn seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial) yn helpu yn hyn o beth.

Mesurau i lenwi bwlch fyddai'r rhain, wrth gwrs o'u cymharu â dileu ansicrwydd; fodd bynnag, byddai gweithredu ar y ddau ffrynt o fudd i'r gweithlu GGI.

MATERION A GODODD

Mae rhai lleisiau croes yn gweld bod y gormodedd o gyfarfodydd (rhithiol) yn llestair, yn arbennig o'u cyfuno â mynediad anghyfartal at gyfarpar clyweledol.

TECHNOLEG

Thema *Technoleg* yw'r un a grybwyllwyd fwyaf, gyda theimladau cadarnhaol a rhai negyddol bron yn gyfartal.

Gwelir technoleg yn bennaf fel galluogwr ar gyfer gwell profiad i'r claf, ac arbedion cost yn y dyfodol yn y tymor canol i'r tymor hir, ac mae hyn yn gyson â chanfyddiadau blaenorol.

EFFAITH

Chwaraeodd y gweithlu GGI rôl allweddol mewn nifer o arloeseddau o ran cynnyrch a phrosesau, sy'n destament i lefel y sgiliau ac arloesedd, a'r agwedd iawn at y gwaith.

Mae llawer o enghreifftiau a welir yn y set ddata yn dangos yr agwedd ddeinamig tuag at ddatrys problemau neu ddatblygu datrysiadau creadigol hyd yn oed cyn i'r problemau ddod i'r golwg, sy'n arwydd o chwilfrydedd deallusol helaeth a lefelau sgiliau uchel.

Mae'r gweithlu GGI yn ategu datblygiad technoleg newydd yn rhagweithiol gyda phroses o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth newydd, gan alluogi eu timau i esblygu'n ddeinamig – er gwaethaf cyfyngiadau ar adnoddau.

Mae staff GGI yn cydnabod yn bendant bod cyfathrebu ac ymgysylltu o fewn timau a chyda'r sylfaen ehangach o randdeiliaid yn hanfodol.

MATERION A GODODD

- Problemau mynediad achlysurol (gan gynnwys ystyriaeth i enillion/colledion effeithlonrwydd) mewn perthynas â thechnoleg ar gyfer gweithio o bell.
- Tirwedd reoleiddiol gymhleth i'w droedio er mwyn cael arloeseddau i ddwyn ffrwyth.
- Achosion lle mae cyfarpar TG yn annigonol neu ddim ar gael ynghyd a staffio/adnoddau a allai waethygu gagendor digidol yn y gweithle a lleihau cynhyrchiant.

MATERION SY'N CODI

- **Mae angen ailystyried adnoddau**
  Gallai tangyllido, ynghyd â gorymestyn adnoddau presennol, achosi i'r gweithlu GGI gyrraedd man lle mae eu hagweddau a'u potensial i arloesi yn cael eu colli. Gallai hynny beri niwed tymor hir i swyddogaeth a thîm GGI, megis colli talent a gostyngiad yn ansawdd darpariaeth gwasanaethau.
- **Gweithio â ffiniau aneglur a meddylfryd twf**
  Ystyried yn ddwys sut y gellir cael mewnwelediad pellach i, ac adnabod y ffactorau sy'n galluogi, timau GGI sy'n perfformio ar lefel uchel a deinameg eu timau, er mwyn eu rhoi ar waith mewn lleoliadau eraill.
- **Rhwystrau biwrocrataidd i'w gwerthuso mewn ymarfer strategol tymor hir**
  Dim ond os gellir cynnal y momentwm y gellir gweithredu newid hir-dymor; mae adnabod y ffactorau allweddol sy'n sbarduno yn hollbwysig.

Ein Tîm Ymchwil a Gwerthuso

James Bourne

Dr Gareth Davies

Dr Daniele Doneddu

Dr Tom Howson

Dr Naomi Joyce

Dr Daniel Rees

Sharon Hughes

Sion Charles

Dr William Beharrel

Paratowyd yr adroddiad annibynnol hwn gan dîm o academyddion, ymchwilwyr ac ymarferwyr o Ysgol Reolaeth Prifysgol Abertawe (YR), Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe (YFPA), rhaglen Accelerate HTC, partneriaeth byrddau iechyd ARCH, Comisiwn Bevan, i ac ar ran Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (Cyf CYTUNDEB: 001/10/2020).

GRŴP Y PROSIECT

PRIFYSGOL ABERTAWE
James Bourne (Ymchwilydd, YR)
Dr Gareth Davies, Athro Cysylltiol (Cyd-Ymchwilydd, YR)
Dr Daniele Doneddu, Uwch Ddarlithydd (Arweinydd yr Astudiaeth – Prif Ymchwilydd, YR)
Dr Tom Howson, Technolegydd Arloesi (YFPA ac Accelerate HTC)C
Dr Naomi Joyce, Uwch Ddarlithydd (Cyd-Ymchwilydd, YFPA ac Accelerate HTC))
Dr Daniel Rees, Ymchwilydd, YR ac Accelerate HTC

ARCH

Sharon Hughes, Uwch Reolwr Prosiectau/Busnes

COMISIWN BEVAN

Sion Charles, Cyfarwyddwr

BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO

Dr William Beharrel, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arloesi

GRŴP CYFEIRIO

Defnyddiwyd Grŵp Arweinwyr Arloesi GIG Cymru i gael cyfeiriad allanol.

ATODIAD

Setiau data, methodoleg a dull gweithredu

Setiau data, methodoleg a dull gweithredu

Ym mis Ebrill 2020, cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan arolwg Cymru-gyfan a oedd yn ceisio barn aelodau staff am ymarfer newydd ac arloesol a oedd wedi cael ei ddatblygu o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Casglwyd swmp sylweddol o dystiolaeth - ansoddol yn bennaf – ac mae crynodeb lefel uchel o'r dystiolaeth hon wedi'i gynhyrchu.

Academyddion ym Mhrifysgol Abertawe sydd wedi cynnal y dadansoddiad o'r setiau data amrywiol hyn. Llywiodd y canfyddiadau o'r dadansoddiad hwn astudiaeth ymchwil ddilynol trwy astudiaethau achos a chyfweliadau treiddgar (*gweler y ddogfen sy'n Atodiad i'r adroddiad hwn i gael gweld yr astudiaethau achos a werthuswyd*).

Cafodd canfyddiadau o'r dadansoddiad o'r astudiaethau achos eu bwydo'n ôl i banel o randdeiliaid arbenigol er mwyn helpu i gryfhau casgliad o argymhellion, sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Setiau data

- **Setiau data cychwynnol**

		YMATEBWYR
CENEDLAETHOL		
Astudiaeth Arloesedd Covid-19 GIG Cymru	273	
Data astudiaeth profiad Comisiwn Bevan – 2 Gam	116+338	
Astudiaeth Newid Gwasanaeth Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Ofal Iechyd	180	
Arolwg Arloesedd Covid-19 y Rhaglen Gwyddor Gofal Iechyd	61+68	

RHANBARTHOL
Adroddiad Darganfod Strategol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Adroddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Adroddiad Adolygu Covid-19 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
MEWNWELEDIADAU Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Adroddiad Arloesi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Astudiaethau Achos

- **37** o astudiaethau achos o bob Bwrdd Iechyd (yn ogystal â Gwasanaethau Caffael GIG Cymru) i ymchwilio i'r themâu allweddol a nodwyd **trwy'r** dadansoddiad o'r setiau data **cychwynnol.**
- Detholwyd astudiaethau achos trwy ddefnyddio'r **meini prawf canlynol** a gafodd eu cymhwyso i'r setiau data o'r astudiaethau cychwynnol a oedd yn seiliedig ar yr arolwg (gweler adran "Setiau Data"):
  - Cynnwys pob un o'r themâu a nodwyd yn y data;
  - Cynnwys pob un o'r byrddau iechyd a gynhwyswyd yn y setiau data.

  Trwy'r meini prawf hyn, nodwyd 90 o achosion i'w hymchwilio ymhellach; esgorodd ymholiadau i'r mannau cyswllt priodol ar 37 achos terfynol i'w hymchwilio trwy gyfweliadau treiddgar lled-strwythuredig.

  Trwy'r fethodoleg hon ac yn ysbryd yr ymchwil sy'n sail i'r adroddiad hwn, rydym wedi sicrhau ei bod wedi cofnodi profiadau cymaint o gynrychiolwyr â phosib tra'n sicrhau na fydd gwerthusiad o'r astudiaethau achos yn diystyru unrhyw ffactorau allweddol. Bydd dull o'r fath yn sicrhau y dysgir cymaint o wersi â phosib ac y ceir cymaint o ganllawiau ac argymhellion â phosib i ffurfio rhan o'r dysgu allweddol yn yr adroddiad terfynol.

  Bydd yr astudiaethau achos yn helpu i amlygu manylion trawsnewidiol yr arloeseddau syml a'r rhai cymhleth fel ei gilydd ynghyd â'r gwahaniaeth dramatig a wnaethant i ddarpariaeth gofal iechyd yng Nghymru.
- Cafodd canfyddiadau o'r dadansoddiad o'r astudiaethau achos eu **dilysu wedyn trwy bedwar grŵp ffocws** o randdeiliaid arbenigol.

Methodoleg

Datblygwyd methodoleg gymysg i'n galluogi i gofnodi natur amlochrog y data. Mae'r cynllun (gweler y ffigwr isod) yn un dilyniannol: mae'r cam cyntaf yn cynnwys dadansoddiad o nifer o setiau data (data ansoddol yn bennaf); yn dilyn hyn, ceir ail gam o gasglu data ansoddol trwy ymchwil astudiaethau achos. Roedd y canfyddiadau o'r dadansoddiad o "Gam un" wedi llywio "Cam dau".



Anelwyd hefyd at sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a bod canfyddiadau cynnar am fanteision a ddeilliai o'r gwaith yn gallu cael eu hymgorffori mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac argymhellion mor fuan â phosib. Roedd ymgysylltu rheolaidd â rhanddeiliaid yn hollbwysig wrth i ail a thrydedd don pandemig COVID-19 ddechrau. Mae dysgu a chroesffrwythloni o wahanol ddulliau o ymgysylltu wedi'u cofnodi yn yr adroddiad hwn.

Mae'r argymhellion allweddol a gynigir yn cynrychioli'r prif feysydd a fyddai – yn seiliedig ar y gwaith a gynhaliwyd hyd yma – yn elwa o ymgysylltu gweithredol gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ogystal â staff GIG Cymru yn ehangach. Gall y pwyntiau hyn helpu i ysgogi datblygiad polisi newydd i ateb anghenion tirwedd sy'n newid, a pharatoi'r GIG a'r wlad ar gyfer dyfodol mwy cydnerth.

Yn yr un modd â phob darn o ymchwil, mae nifer o gyfyngiadau y dylid eu hystyried. Yn benodol, mae'r holl gasgliad data wedi'i effeithio, i ryw raddau, gan ogwydd hunan-ddethol yr ymatebwyr. Rydych chi'n llawer mwy tebygol o ymateb i astudiaeth am arloesi a thrawsnewid gwasanaethau, i lenwi arolwg ac i gael y cyfle i drafod eich arloesedd neu'ch ymarfer trawsnewid gwasanaeth, os ydych chi eisoes yn arloeswr, neu'n meddu ar feddylfryd arloeswr. Rydym wedi ceisio lliniaru hyn trwy: fabwysiadu fframwaith ymchwil sydd wedi'i wreiddio mewn rheolaeth arloesi; edrych ar y data mewn ffordd holistig; trwy gyflwyno'r canfyddiadau i gael eu dilysu trwy adolygiad cymheiriaid, sy'n rhywbeth a fu o gymorth ar gyfer mireinio'r argymhellion terfynol. Helpodd hynny ni i droi cyfyngiad yn lens penodol arall ar gyfer edrych ar y data, y canfyddiadau a'r argymhellion.

Gobeithiwn y caiff yr adroddiad hwn ei dreulio a'i ystyried yn fyfyriol, ac y daw yn llawlyfr ymarferol ar gyfer arloesi a thrawsnewid ar draws GIG Cymru.

Dull o Ddadansoddi'r Data

Defnyddion ni ddull dadansoddi cynnwys cyfeiriedig (DCA) (Mayring, 2000) ac alldynnu thematig i ddadansoddi'r data. Gan dynnu ar y dull DCA a ddisgrifiwyd gan Mayring (2000), ac ymchwil dilynol gan Howson(2019), addaswyd model at ddibenion yr astudiaeth hon.

Mae'r themâu canlynol wedi'u defnyddio i helpu gyda dadansoddi data. Er mwyn teilwra'r dadansoddiad ar gyfer pob set ddata benodol, mabwysiadwyd fframwaith dadansoddol hyblyg, sy'n defnyddio is-setiau o themâu pryd bynnag y bo hynny'n berthnasol ac yn briodol.

THEMA PRIORI	DISGRIFIAD	ENGHREIFFTIAU
Gwybodaeth ac Adnoddau / Galluogrwydd Tîm	Unrhyw ffactorau ynghlwm â'r wybodaeth, sgiliau neu arbenigedd ac adnoddau eraill sy'n angenrheidiol i ddatblygu prosiectau arloesol. / Unrhyw ffactorau sy'n gysylltiedig ag amodau'r amgylchedd allanol y lleolir y sefydliad neu'r prosiect.	• Cyllid • Gwybodaeth, Sgiliau ac Arbenigedd Angenrheidiol • Ymwybyddiaeth (wedi ei gynnwys) • Profiad tîm • Sgiliau arweinyddiaeth tîm
Technoleg / Mabwysiadu technoleg	Yn benodol pan mae setiau data'n anelu at ddatblygiadau technolegol a / neu ddefnyddio/mabwysiadu technoleg (pan nad yw wedi ei gynnwys yn y thema "Adnoddau").	• Meddalwedd newydd wedi ei gaffael a'i mabwysiadu • Offer mewnol
Ymgysylltiad	Unrhyw ffactor yn gysylltiedig ag ymgysylltiad neu ryngweithio gyda phartneriaid allanol lle nad oes sianel gyfathrebu sefydledig na pherthynas gydweithredol yn bodoli.	• Rhwydweithio • Ymgysylltiad Defnyddwyr • Ymgysylltiad â rhanddeiliaid ehangach
Diwylliant Sefydliadol / Ystwythder	Unrhyw ffactorau sy'n gysylltiedig â diwylliant sefydliadol a chysyniadau rheoli tuag at arloesedd	• Diwylliant Sefydliadol • Rheolaeth Gefnogol
Proses Sefydliadol	Unrhyw ffactor sy'n gysylltiedig â dyluniad a strwythur y sefydliad a phrosesau sy'n ynghlwm â hynny.	• Prosesau sefydliadol • Traws Weithredol • Dyluniad Sefydliadol
Galluogrwydd Tîm	Unrhyw ffactorau sy'n gysylltiedig ag aelodau'r tîm neu nodweddion y tîm prosiect yn fwy cyffredinol.	• Datblygiad sgiliau newydd o fewn y tîm • Amser i weithio ar y prosiect
Cyhoedd / Cleifion	Unrhyw ffactor sy'n gysylltiedig â'r cyhoedd neu gleifion.	• Adborth gan gleifion • Perchnogaeth glinigol a gymerir gan gleifion • Colli amser teuluol
Arall	Unrhyw thema arall nad yw'n ffitio'n rhwydd ag unrhyw un o'r themâu uchod / sydd angen ei gwerthuso ar wahân.	• Buddion amgylcheddol • Teithio • Canllawiau'r llywodraeth • Llesiant personol

@SwanseaUni @iLab_Swansea
@SoMSwansea @SwanseaMedicine

LinkedIn: Prifysgol Abertawe
E-bost: press@swansea.ac.uk
Gwefan: www.swansea.ac.uk